# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL

# 2020/21

## Cyhoeddwyd Hydref 2021

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## YN SICRHAU BOD GOGLEDD CYMRU YN ARDAL FWY DIOGEL I FYW YNDDI, I WEITHIO YNDDI AC I YMWELD Â HI

Croeso i adroddiad cynnydd a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2020/21. Ym mis Mawrth 2020, roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21, a oedd yn cadarnhau ei amcanion hirdymor ac yn esbonio ei gynlluniau ar gyfer y flwyddyn er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol oherwydd y pandemig, cafodd cynnydd da ei wneud wrth gyflawni'r camau a gynlluniwyd, gan ddangos cynnydd mewn perthynas â'r saith Amcan Gwella a Llesiant. Mae'r adran o'r enw 'Cynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Gwella a Llesiant' yn nodi tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau hyn.

Ers 23 Mawrth 2020, mae Cymru wedi cael sawl cyfnod clo i ymateb i COVID-19. Y prif fater i'r Awdurdod o'r dechrau oedd diogelwch y staff a'r cyhoedd.

Cydnabuwyd ar unwaith y gallai'r Awdurdod helpu i leihau lledaeniad heintiadau'r coronafeirws petai'n lleihau cysylltiadau. Drwy gydol mis Mawrth ac i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd, ymatebodd yr Awdurdod yn gadarnhaol i gais Llywodraeth Cymru i bobl aros gartref i amddiffyn bywydau.

Felly, dechreuodd llawer o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru weithio o gartref ar unwaith, gan deithio dim ond pan fo raid a gan gadw at y rheoliadau ar gadw pellter cymdeithasol. Roedd gweithio o gartref, a dal i ddilyn y mesurau cadw pellter cymdeithasol, wedi parhau ar safleoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy gydol 2020/21.

Wrth i'r Gwasanaeth ganfod ffyrdd newydd o weithio, mae'n eglur y gallai rhai o'r datblygiadau hyn ymestyn y tu hwnt i'r argyfwng presennol, yn enwedig y datblygiadau technolegol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen 3 ynglŷn â sut mae'r Awdurdod wedi ymateb i'r pandemig.

Gobeithio bod yr hanes am eleni yn ddiddorol ac yn rhoi llawer o wybodaeth. Rhoddwyd mwy o bwyslais yn yr adroddiad eleni ar gynnwys enghreifftiau o gydweithio a sut mae'r Gwasanaeth yn cymharu ag eraill. Fel bob amser, mae croeso i chi roi adborth ynglŷn â sut i wella'r dulliau adrodd yn y dyfodol.

Gellir rhoi sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar dudalen 63.

**CYNNWYS**

COVID-19 – YR EFFAITH AR YR AWDURDOD....................................................3

GOFYNION CYFREITHIOL I ADRODD....................................................4

GAIR AM OGLEDD CYMRU....................................................6

TUEDDIADAU YNG NGHYMRU YN Y DYFODOL....................................................7

GAIR AM AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU....................................................11

CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION GWELLA A LLESIANT....................................................14

MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG....................................................44

CYNNYDD TUAG AT YR AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL....................................................48

CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD....................................................52

Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU YN 2020/21....................................................53

BETH MAE POBL ERAILL WEDI'I DDWEUD AMDANOM....................................................58

GEIRFA / DIFFINIADAU....................................................61

FERSIYNAU ERAILL, A SUT I GYSYLLTU Â NI....................................................63

## COVID-19 – YR EFFAITH AR YR AWDURDOD

Mae'r effeithiau a gafodd pandemig COVID-19 ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ('yr Awdurdod') wedi bod yn ddigynsail a phellgyrhaeddol. Drwy ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae'r Awdurdod wedi gallu cyflwyno ffyrdd newydd o feddwl wrth gynllunio i'r dyfodol.

Mae'r pandemig wedi golygu heriau niferus i weithdrefnau sefydledig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) neu'r 'Gwasanaeth'. Ymatebodd y staff yn ddyfeisgar a chadarn, gan dangos bod modd gwneud newidiadau a pharhau â'r rheini mewn ffyrdd o weithio yn y dyfodol:

**Diogelwch yn y Cartref** – Er bod ymweliadau â chartrefi i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach wedi dod i stop am gyfnod i ddechrau, sefydlwyd proses arall mewn byr o dro i roi cyngor ac arweiniad dros y ffôn, ac i ddarparu larymau mwg i garreg y drws i drigolion neu eu gofalwyr os oedd angen. O ran cartrefi a aseswyd fel rhai â risg arbennig o uchel o dân, argymhellwyd ymweliadau personol gan y Gwasanaeth dim ond ar ôl sefydlu mesurau rheoli priodol i ddiogelu'r staff a'r trigolion.

**Diogelwch Tân ar gyfer Busnesau** - Addaswyd ymweliadau â safleoedd masnachol i archwilio eu trefniadau diogelwch tân drwy ganolbwyntio mwy ar safleoedd â risg uwch a mynd ati fwy o bell i wirio'r trefniadau rheoli.

**Gweithio gyda Phobl Ifanc** - Cyn i'r pandemig gael effaith, byddai'r Gwasanaeth yn mynd ati'n rheolaidd i drefnu digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys diwrnodau agored mewn gorsafoedd tân yn y rhanbarth lle gallai staff rheng flaen ymgysylltu a meithrin perthynas â'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gyrfa. Hefyd, byddai rhaglenni cadetiaid tân a chynlluniau prentisiaeth yn cael eu cynnal yno. Cafodd y diwrnod agored rhithiol cyntaf ei gynnal ar ddiwedd 2020 fel digwyddiad peilot, a bu hwn yn llwyddiannus a chael derbyniad da. Cafodd gwaith ymgysylltu'r Gwasanaeth â disgyblion ysgol, cadetiaid tân a chyfranogwyr ym Mhrosiect y Ffenics eu haddasu er mwyn eu cyflwyno ar-lein.

**Ymateb Brys** – Fe wnaeth staff yr Ystafell Reoli, sydd fel arfer yn gweithio mewn ystafell reoli ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, symud o'r safle ar y cyd i safle 'wrth gefn' lle roedd y seilwaith ar gael eisoes ar gyfer delio â galwadau 999 ac anfon peiriannau tân. Bu hyn yn gymorth i staff yr Ystafell Reoli gadw pellter cymdeithasol, er eu bod wedi colli rhai o'r manteision o gael eu lleoli ar y cyd â'r Heddlu. Parhaodd y criwiau diffodd tân i ymateb i ddigwyddiadau brys drwy gydol y cyfnod, ond roedd angen mynd ati'n gyflym i gyflwyno rheolaethau ychwanegol a mesurau lleihau risg er mwyn amddiffyn rhag trosglwyddo COVID-19. Roedd cefnogaeth ar gael i'r ymateb brys drwy gydol y cyfnod, drwy sicrhau asesiadau risg llawn a sylweddol, a oedd nid yn unig yn cael eu cynnal ar unwaith ond hefyd yn cael eu hadolygu wrth i wybodaeth ddod i'r amlwg.

**Swyddogaethau Corfforaethol** - Galluogwyd staff sy'n gweithio mewn swyddi corfforaethol a rheolaethol i weithio o gartref. Er yr effaith amlwg ar y gallu TGCh yn y Gwasanaeth, llwyddodd y staff i addasu'n gyflym i gyfathrebu a chynnal cyfarfodydd drwy fideo-gynadledda. Felly, dim ond yn achlysurol iawn, ac am resymau penodol, y mae staff wedi ymweld â'r safleoedd gwaith.

**Gwasanaethau Eraill (yn bersonol) -** Mae rhai swyddogaethau, megis hyfforddi staff, cynnal a chadw'r fflyd, storfeydd a rheoli'r ystâd yn dibynnu fwy ar gael staff yn bresennol yn bersonol. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y swyddi hyn mae ffyrdd eraill o weithio wedi cynyddu (e.e. e-ddysgu, sesiynau byw yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu cynnal yn rhithiol, a chynnal asesiadau ar-lein ar gyfer hyfforddiant). Mae hyn wedi dangos bod modd gweithio a gweithredu'n wahanol yn y dyfodol.

Yn ystod 2020/21, lluniwyd adroddiad o'r enw 'Dysgu oddi wrth COVID-19' a oedd yn nodi pedair thema allweddol a ddaeth i'r amlwg; pwysigrwydd cyfathrebu'n dda; bod wedi paratoi'n dda, cynnal hyblygrwydd ac ystwythder, a chael gwell dealltwriaeth o achos ac effaith. Caiff hyn ei ddefnyddio fel sail i arferion gweithio.

## GOFYNION CYFREITHIOL I ADRODD

Mae'r Awdurdod yn ystyried bod atebolrwydd i'r cyhoedd a thryloywder yn hollbwysig ymhob agwedd ar ei berthnasoedd â chymunedau lleol, partneriaid a sefydliadau, ac mae'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad, a hynny yn unol â'r ddeddfwriaeth isod:


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl fwy am y nodau hirdymor, gweithio'n well â phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chael dull mwy cydlynus[1]. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Yr amcanion hirdymor hyn yw'r gwelliannau y mae'r Awdurdod eisiau helpu i'w sefydlu yng Ngogledd Cymru ac a fydd yn cyfrannu at wella llesiant lleol a symud Cymru'n nes at gyflawni ei nodau llesiant.




Ar ôl nodi'r amcanion hirdymor hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, ac i gyhoeddi adroddiad cynnydd ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.


Pum ffordd o weithio;

 Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor ag anghenion hirdymor

 Atal problemau rhag digwydd neu waethygu

 Cael dull integredig, gan sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

 Cofio'r amrywiaeth gyfoethog o bobl sydd yng Nghymru, a'u hannog i gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

 Cydweithio i gyflawni'r amcanion llesiant.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

Mae'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru wedi'u categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig' hefyd, ac maent yn agored i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 felly rhaid iddynt ddilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus unigol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ardal pob awdurdod lleol greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sefydlwyd pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef:

- Ynys Môn a Gwynedd
- Conwy a Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Wrecsam.

Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi 'Cynllun Llesiant' i nodi ei flaenoriaethau a sut mae'n gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau hynny yn ei ardaloedd.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Equality Act 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd ar y sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff yn y sector cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan neu dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

**Safonau'r Gymraeg 2016**


Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi eu Hysbysiadau Cydymffurfiaeth i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o Safonau'r Gymraeg (fel y maent wedi'u rhestru'n llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5); 2016) y mae'n rhaid i sefydliad gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## GAIR AM OGLEDD CYMRU

Mae gwybod am Ogledd Cymru heddiw yn gymorth i'r Awdurdod gynllunio i wneud newidiadau cadarnhaol i'r dyfodol:


### Poblogaeth:




**22.2%**
o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


### Arwynebedd KM²:




**29.7%**
o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


### Dwysedd Poblogaeth:




**114**
Y cyfartaledd yng Nghymru yw 152

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


### Cartrefi:




**22.7%**
o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


### Eiddo Annomestig:




**26.5%**
o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


### Hyd y Ffyrdd KM:




**27.9%**
o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


### Arwynebedd Amaethyddol KM²:




**31.1%**
o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]

### Siaradwyr Cymraeg:





**31.6%**
o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


## TUEDDIADAU YNG NGHYMRU YN Y DYFODOL

Mae’n ofynnol i Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol gyhoeddi adroddiad ‘Cenedlaethau’r dyfodol’ bob pum mlynedd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r adroddiadau hyn wedi cael eu defnyddio i helpu i siapio gwaith cynllunio’r Awdurdod drwy ddeall sut y gallai Cymru newid dros y blynyddoedd nesaf ac mae hefyd yn ffordd o atgoffa am y Gymru y dylai pawb fod yn ceisio ei sicrhau ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn darparu fframwaith arweiniol ar gyfer sut y dylem geisio ymateb i’r pwysau a’r newidiadau a ragwelir yn y tymor byr, canolig a hir. Mae’r Ddeddf yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau cywir, er mwyn ein helpu i symud tuag at gael golwg ataliol ehangach ynglŷn â sut rydym yn rhedeg ein cymdeithas a gwasanaethau cyhoeddus.




“Mae’r argyfwng COVID-19 wedi dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd cyrff cyhoeddus yn gweithio’n agos gyda mentrau helpu-cymunedau yn eu hardaloedd, yn arbennig mewn cysylltiad â phobl agored i niwed a phobl unig, a dylai hyn barhau y tu hwnt i’r pandemig a helpu i gysylltu cymunedau Cymru.”

**“Yn ffodus, nid yw’r dyfodol wedi’i bennu. Mae’r camau a gymerwn, neu na chymerwn, yn gwneud gwahaniaeth i’r dyfodol a welwn yfory.”**

**Twf y boblogaeth:**

Bydd deall demograffeg cymunedau yng Ngogledd Cymru, a sut mae'n debygol o newid yn y dyfodol, yn gymorth i'r Awdurdod gynllunio a sicrhau adnoddau iddo'i hun yn briodol. Mae llai o blant yn cael eu geni ac mae pobl yn byw'n hirach. Felly, mae oedran cyfartalog y boblogaeth yn codi. Mae hyn yn arwain at oblygiadau sylweddol i'r gymdeithas gyfan.


Bydd ymateb i'r newid demograffig hwn yn gofyn am addasiadau ar draws llawer o agweddau ar fywydau pobl: sut maent yn gweithio; sut gofelir amdanynt; sut byddant yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'i gilydd; y seilwaith a'r ffordd y byddant yn dysgu ac yn defnyddio technoleg.

Bydd angen i'r Awdurdod ddeall natur a goblygiadau'r newidiadau demograffig hyn er mwyn addasu'n llwyddiannus a chyflawni ei ddatganiad cenhadaeth.


Yn 2018, ychydig dros 3 miliwn oedd poblogaeth Cymru, ond mae ffigyrau'r amcanestyniad yn awgrymu y bydd y boblogaeth wedi codi i fwy na 3,350,000 erbyn 2043.

Yn ôl Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru (2013-2023): Byw'n Hirach, Heneiddio'n Dda - *"Mae poblogaeth Cymru am gynyddu. Er bod pobl yn byw'n hirach, nid ydynt o reidrwydd yn byw ag iechyd da: pan fyddant yn 65 oed, gall y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ddisgwyl treulio ychydig dros hanner gweddill eu hoes mewn iechyd da, ac erbyn 2025 gallai 50,000 o bobl yn y grŵp oedran hwn fod yn byw â dementia."*

**Ffigur 1: Y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol, 2018**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol




[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Mae gan yr Awdurdod ddiddordeb yn hyn oherwydd mae angen iddo wneud y canlynol:**

- teilwra'r Gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r cynnydd a ragwelir yn nifer y trigolion oedrannus, a pharhau i ystyried y ddemograffeg sy'n newid;
- parhau â gweithgareddau addysgol drwy weithio gydag ysgolion a chlybiau ieuenctid;

- cadw’r negeseuon diogelwch yn berthnasol, yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol;
- monitro tueddiadau iechyd a allai olygu addasu i ffyrdd newydd o weithio;
- monitro sut y gallai newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn byw effeithio ar wasanaethau. Er enghraifft:
    - newidiadau i ffordd o fyw a dulliau coginio.
    - mwy o bobl yn gweithio o gartref
    - mwy o bobl yn gweithio shifftiau

**Cynnydd yn nifer y cartrefi:**

Yn ôl adroddiad y Comisiynydd - *“Rhagamcenir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu'n gyson dros yr 20 mlynedd nesaf.”.*




“Rhagamcenir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gynt na'r boblogaeth rhwng 2016 a 2039, gyda mwy o bobl eisiau byw ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau teuluol llai o faint. Er mwyn ateb y galw cynyddol am gartrefi, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd angen 8.300 ar gyfartaledd o gartrefi newydd bob blwyddyn tan 2023 ac yna 4,000 y flwyddyn tan ganol yr 2030au.”


[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Mae gan yr Awdurdod ddiddordeb yn hyn oherwydd mae angen iddo wneud y canlynol:**

- parhau i wybod ble mae adeiladau ac ystadau tai newydd fel y gall barhau i gyrraedd yn gyflym pan fo angen;
- dilyn y datblygiadau o ran newidiadau posibl i ddeunyddiau adeiladu, a deall sut y gallent effeithio ar dân pan fydd yn digwydd;
- sicrhau bod rheoliadau tân yn cael eu dilyn a bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi pan fo angen;
- parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol i ail-bwysleisio pwysigrwydd diogelwch tân, gan ddilyn y datblygiadau o ran y dechnoleg a’r cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i gyflwyno negeseuon diogelwch

**Y Dirywiad Byd-eang mewn Rhywogaethau**

Mae adroddiad cenedlaethau'r dyfodol yn datgan y canlynol - *"Ar gyfartaledd, mae 25% o'r rhywogaethau mewn grwpiau a aseswyd o anifeiliaid a phlanhigion mewn perygl yn fyd-eang, gyda'r niferoedd ar draws grwpiau o rywogaethau naill ai'n gostwng neu'n aros yn sefydlog ers 1990. Mae tua 1 miliwn o rywogaethau'n wynebu difodiant heb weithredu i golli llai o fioamrywiaeth, a llawer mewn perygl mewn degawdau."*




[**Ffynhonnell: Sefyllfa Byd Natur**]    [**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru**]

**Mae gan yr Awdurdod ddiddordeb yn hyn oherwydd mae angen iddo wneud y canlynol:**

- parhau i adeiladu ar y gwaith cydweithredol sydd eisoes yn digwydd gyda thirfeddianwyr i leihau'r risg o danau awyr agored a allai niweidio cynefinoedd hanfodol;
- parhau i weithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid iddo i gynorthwyo i atal llifogydd ac i ymateb i'r rheini pan fyddant yn digwydd;
- gallu cyfrifo ei ôl troed carbon a gweithio tuag at ei leihau;
- gostwng nifer y tanau, a gostwng y lefel o lygryddion niweidiol sy'n cael eu rhyddhau i'r atmosffer

# GAIR AM AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Isod, ceir cip ar adnoddau a lefelau gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod 2020/21.


| Gorsafoedd Tân | Injanau Tân | Galwadau 999 y deliwyd â nhw | Staff y Gwasanaeth Tân |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 44 | 54 | 10,715 | 857 |

| Argyfyngau yr aethpwyd atynt | Tanau | Galwadau Diangen | Argyfyngau nad oeddent yn Danau |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 4,699 | 1,770 | 2,315 | 614 |

**Gorsafoedd Tân**
Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o 44 o orsafoedd tân ar draws ardal y gwasanaeth.

Gorsafoedd Tân Amser Cyflawn **-** Mae tair gorsaf dân yn aros ar agor bob awr o'r dydd a'r nos. Mae gan bum gorsaf dân griw rhwng hanner dydd a 10:00pm, ac maent yn gweithredu fel gorsafoedd ar-alwad y tu allan i'r oriau hynny.

Gorsafoedd Tân ar gael yn ôl y galw/ar-alwad – Mae 36 o orsafoedd tân yn gweithredu system ar-alwad. Caiff y gwaith o anfon peiriannau tân a chriwiau at ddigwyddiadau brys ei reoli'n ganolog gan staff yr ystafell reoli yn Llanelwy.




**Staffio**

| **Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2021** | **Nifer y gweithwyr yn cyfateb i lawn amser** | **Cyfrif pennau staff unigol** |
|---|---|---|
| Gweithredol Amser Cyflawn (WDS) | 260.00 | 260 |
| Gweithredol ar gael yn ôl y galw (RDS/ar-alwad) | 352.75 | 422 |
| Cefnogol ac Ataliol | 134.39 | 143 |
| Yr Ystafell Reoli | 31.25 | 32 |
| **Cyfanswm** | **778.39** | **857** |

Mae bron i hanner y staff a gyflogir gan yr Awdurdod yn rhai sydd wedi'u categoreiddio'n ddiffoddwyr tân ar-alwad; mae hyn ymysg y gyfran uchaf o gymharu ag awdurdodau tân ac achub yn Lloegr.

**Graff yn dangos cyfanswm y diffoddwyr tân ar-alwad (yn ôl nifer y gweithwyr yn cyfateb i lawn amser) fel canran o'r holl weithlu, fesul awdurdodau tân ac achub yng Ngogledd Cymru ac yn Lloegr*.**




Ffynhonnell: [Tablau data ystadegau tân - GOV.UK (www.gov.uk)](#) *yn aros am wybodaeth am 2021

## BETH SY'N DDISGWYLIEDIG GAN YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wneud y canlynol:

**Atal Tân**
- trefnu i hyrwyddo diogelwch tân yn eu hardaloedd. Byddai hyn yn cynnwys rhoi gwybod i bobl am atal tanau a'u cynghori ynghylch y ffyrdd gorau o ymateb os bydd tân yn digwydd.

**Gorfodi Diogelwch Tân**
- bod â dyletswydd i orfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig, er enghraifft, gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i roi hysbysiadau addasu, gorfodi a hyd yn oed gwahardd os gwelir bod y trefniadau diogelwch tân ar safleoedd yn anfoddhaol.

**Ymateb Brys**
- gwneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac ar gyfer anfon staff sydd wedi'u hyfforddi gyda'r cyfarpar cywir i ddiffodd tanau a diogelu bywyd ac eiddo yn y tanau hynny. Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau i achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac i ddiogelu pobl rhag niwed difrifol.

**Cynllunio ar gyfer Ymateb i Argyfyngau Eraill**
- gwneud trefniadau ar gyfer dihalogi torfol ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau wedi cwympo. Rhaid iddynt hefyd fod yn barod i helpu mewn argyfyngau mawr (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) mewn rhannau eraill o'r DU. Fel ymatebwyr 'Categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae dyletswyddau hefyd ar awdurdodau tân ac achub o ran digwyddiadau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r prif gadwyni cyflenwi.

**Llifogydd ac Argyfyngau Dŵr Mewndirol**
- gwneud trefniadau i ymateb i ddigwyddiadau'n ymwneud â llifogydd neu achub o ddŵr sy'n bygwth marwolaeth neu anaf yn uniongyrchol.

**Cydraddoldeb**
- gweithio tuag at ddileu camwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

**Y Gymraeg**
- trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan hybu'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â safonau diffiniedig ar gyfer y Gymraeg.

**Gwelliant Parhaus**
- gosod amcanion i fynd ati'n barhaus i wella'r hyn a wnânt, a chyhoeddi gwybodaeth am eu gwelliannau a'u perfformiad.

**Cynllunio ar gyfer y Dyfodol**
- gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl, yn ogystal â gweithio mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.


## CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION GWELLA A LLESIANT

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad o'i berfformiad ei hun am 2020/21 a'r dangosyddion perfformiad statudol am yr un flwyddyn erbyn 31 Hydref 2021.

Roedd adborth gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2018/19 yn argymell bod yr Awdurdod yn cynyddu nifer yr amcanion yr oedd yn mynd ynglŷn â nhw er mwyn cydymffurfio'n well ag adran 3(2) (a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae hyn yn datgan bod rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "...sy'n cael eu cynllunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant".

I ymateb i hynny, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo adolygiad o'i amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21. Lluniwyd set ddrafft o amcanion newydd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar wefan y Comisiynydd fel 'gwirwyr taith' a oedd yn helpu i ganfod cyfleoedd i'r Awdurdod wella ei gyfraniad at nodau llesiant Cymru.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda phenaethiaid adrannau, gweithdai gydag Aelodau'r Awdurdod, a defnyddio adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyfres derfynol o saith o amcanion gwella a llesiant wedi'u diwygio a'u helaethu. Mae'r diagram isod yn dangos y cysylltiadau rhwng y rhain.





Pan fo modd, cymharwyd â'r ddau awdurdod tân ac Achub arall yng Nghymru ynghyd â gwasanaethau tân ac achub yn Lloegr sy'n debyg i Ogledd Cymru o ran daearyddiaeth, demograffeg, a maint y boblogaeth, sef Gwasanaethau Tân ac Achub Cumbria, Gogledd Swydd Efrog, Henffordd a Chaerwrangon, Dyfnaint a Gwlad yr Haf, a Swydd Lincoln. Pan fo modd, cymherir â chyrff cyhoeddus eraill yn y rhanbarth, megis Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oedd data cymharol ar gael am flwyddyn 2020/21 ar adeg llunio'r adroddiad hwn, felly defnyddiwyd data 2019/20.

## Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru

Gall amrywiaeth o ffactorau roi pobl mewn mwy o berygl o danau damweiniol yn y cartref, er enghraifft, eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), bod ag anabledd neu gyflwr meddygol cyfyngol, bod ar eu pen eu hunain ar adeg y tân, ac alcohol a/neu gyffuriau yn effeithio arnynt.

Bydd unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fydd rhai'n digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac iach ond hefyd yn fwy cadarn yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae effaith llygredd tanau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro yn troi pobl draw oddi wrth weithgareddau awyr agored a gall amharu'n negyddol ar lesiant corfforol a meddyliol. Drwy gydol 2020/21, parhaodd yr Awdurdod i ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu pobl i aros yn ddiogel, boed gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd neu allan yn y gymuned.

### Cam Gweithredu: cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd




Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 360 o Danau Damweiniol mewn Cartrefi yn 2020/21, gyda 96 o bobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd. Mae'r graff uchod yn dangos y tueddiad cymharol pum mlynedd a welwyd o 2015/16 hyd 2019/20 rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub tebyg yn Lloegr, a'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru. Mae'n dangos yr aethpwyd at tua 5 o Danau Damweiniol mewn Cartrefi am bob 10,000 o boblogaeth yn 2019/20, sef gostyngiad bach o'r 6 am bob 10,000 yn 2016/17. Er bod nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi yng Ngogledd Cymru wedi gostwng yn gyffredinol ers 2015/16, cafwyd cynnydd bach yn 2019/20. O gymharu'n genedlaethol, roedd nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi am bob 10,000 o boblogaeth yng Ngogledd Cymru yn 2019/20 wedi parhau'n is na De Cymru ac yn debygach i Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, rhyddhaodd y Gwasanaeth nifer o negeseuon diogelwch wedi'u targedu, i apelio ar bobl i fod yn fwy gofalus ac i annog ymddygiad cyfrifol yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu negeseuon am beryglon llosgi gwastraff o'r ardd a'r cartref.





Roedd yr ymgyrch 'Diogelwch Trydanol yn Gyntaf' yng nghyfnod y Nadolig yn 2020 yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o dechnoleg glyfar ffug a hyrwyddo prynu technoleg glyfar go iawn gan gwmnïau ag enw da neu siopau adnabyddus y stryd fawr.

Datblygwyd cynllun treialu ar gyfer partneriaeth newydd â thimau'r GIG yng Ngogledd Cymru i helpu i ddiogelu trigolion agored i niwed. Roedd hyn yn ymestyn y cysylltiadau cyfredol, gydag aelodau o staff y Gwasanaeth yn gweithio'n agos â chydweithwyr o'r GIG i ddosbarthu 'pecynnau gwybodaeth am ddiogelwch', a oedd yn cynnwys staff y GIG yn gadael larymau mwg gyda chleifion. Roedd manylion cyswllt GTAGC wedi'u cynnwys, yn ogystal â thaflenni diogelwch tân.

Parhaodd y Gwasanaeth i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ddibynnu ar yr iaith a ddewisid gan y preswylydd.

Mae'r graff isod yn dangos y gostyngiad cyffredinol yn nifer yr anafusion mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi dros y pum mlynedd rhwng 2015/16 a 2019/20. Fodd bynnag, rhwng 2018/19 a 2019/20 cafwyd cynnydd yn nifer yr anafusion mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi am bob 10,000 o boblogaeth a gwelwyd bod hyn wedi parhau yn 2020/21. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu deall a gwella'r camau ataliol pan fo angen.



**Cam Gweithredu: datblygu gwybodaeth a deall y ffactorau sy'n cyfrannu at ba mor agored yw person i niwed oherwydd tanau mewn cartrefi, a defnyddio hyn i ddarparu negeseuon targedol ac amserol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r risg a'r canlyniadau ac er mwyn ceisio dylanwadu a newid ymddygiad**




Yn ystod y cyfnod clo yn 2020, bu'r ymgyrchoedd yn canolbwyntio ar annog y cyhoedd i beidio â llosgi gwastraff y cartref a'r ardd ac ar ffyrdd o osgoi cael tanau oherwydd dulliau coginio.

Rhyddhaodd y Gwasanaeth negeseuon diogelwch i helpu i esbonio i'r cyhoedd fod pobl yn cyfrannu'n ddiarwybod at y broblem tipio anghyfreithlon drwy ddefnyddio cwmnïau gwastraff anghofrestredig, gan fod rhai ohonynt yn tipio gwastraff o'r cartref a'r ardd yn anghyfreithlon a bod hynny wedyn yn darged i losgi bwriadol. Cynhaliodd y Gwasanaeth apêl ar S4C ym mis Gorffennaf 2020 i geisio lleihau'r galw ar adnoddau diffodd tân a lleihau'r risg o fod yn agored i COVID-19.

Cyhoeddwyd adroddiad yn dilyn y cam cyntaf o'r ymchwiliad i Dŵr Grenfell. Roedd hwn yn cynnwys mynd i'r afael ag argymhellion ar gyfer gweithdrefnau i staff yr ystafell reoli a diffoddwyr tân. Roedd y Gwasanaeth yn dal yn ymrwymedig i weithredu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad a chamau pellach o'r ymchwiliad.

**Cam Gweithredu: cynnal 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg gydag o leiaf 25% o'r rheini'n cael eu cynnal i gartrefi a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall**

Parhaodd y Gwasanaeth i gynnig Archwiliadau Diogel ac Iach am ddim i drigolion ledled Gogledd Cymru. Caiff yr archwiliadau eu cynnal gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n llawn, ac maent yn cynnwys darparu a gosod larymau mwg (neu sicrhau bod y rhai sydd yno yn gweithio'n iawn), cyngor ar wneud cartrefi'n ddiogel rhag tân, cymorth i baratoi cynllun dianc rhag tân, ac asesu a yw rhywun â risg uchel ac fyddent yn elwa o gael offer diogelwch arbenigol.

Fel rhan o'i ymrwymiad i weithio tuag at Gymru iachach, bu'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach yn amserol yn ystod 2020/21. Roedd yr Awdurdod yn wastad wedi cael targed o 20,000 o Archwiliadau bob blwyddyn, gyda 5,000 o'r rheini'n dod o atgyfeiriadau gan asiantaethau. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau'r cyfnod clo wedi effeithio ar hyn eleni oherwydd pryder am ddiogelwch y staff ac aelodau'r cyhoedd. Fe wnaeth y Gwasanaeth gyfyngu ar yr Archwiliadau Diogel ac Iach wyneb yn wyneb i unigolion â risg uchel, a chafodd y lleill eu cynnal dros y ffôn.

Ym mis Mehefin 2020, a'r Llywodraeth yn llacio'r cyfyngiadau ar waith, ysgolion a gweithgareddau cymdeithasol, ailgyflwynwyd mwy o ymyriadau diogelwch tân er bod y dulliau cyflwyno wedi newid. Cynhaliwyd cyfanswm o 11,334 o Archwiliadau Diogel ac Iach, gyda 3,908 yn dod drwy atgyfeiriadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid i ni. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau'r pandemig ni lwyddwyd yn ddiogel i gyrraedd y targed o 20,000 o archwiliadau.


Cafodd y Gwasanaeth sicrwydd o wybod bod problemau tebyg wedi cael eu codi mewn rhannau eraill o'r DU ynglŷn â chynnal Archwiliadau Diogel ac Iach. Yn ei adroddiad perfformiad hanner blwyddyn yn 2020/2021, adroddodd GTA Dyfnaint a Gwlad yr Haf fod nifer yr ymweliadau diogelwch tân yn y cartref (sy'n cyfateb i'r archwiliadau diogel ac iach) wedi gostwng oherwydd y pandemig. Roedd ei ddull yn canolbwyntio ar sicrhau mai dim ond yr ymweliadau mwyaf hanfodol

oedd yn cael eu cynnal, a hynny er diogelwch y staff a'r cyhoedd. Fel GTAGC, mae nifer yr ymweliadau wedi codi wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

**Cam Gweithredu: cefnogi asiantaethau eraill i ostwng nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ynghyd â'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n gysylltiedig â'r rheini**

Mae gwasanaethau tân ac achub yn gyfrifol am achub pobl os oes gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Mae'r graff isod yn dangos bod Gogledd Cymru, ym mlwyddyn ariannol 2019/20, wedi mynd at gyfanswm o 3 gwrthdrawiad am bob 10,000 o'r boblogaeth. O'r rhain, roedd 42 angen defnyddio offer i achub pobl yn sownd; felly 3 am bob 10,000 o'r boblogaeth.

Er bod nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru wedi aros yn gymharol gyson dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2015/16 a 2019/20, cafwyd gostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt ym mlwyddyn ariannol 2020/21, sef o 179 yn 2019/20, i 105. Gwelodd Gwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf hefyd ostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau yr aethpwyd atynt yn 2020/21 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol fod gwasanaethau tân ac achub eraill wedi gweld gostyngiad tebyg oherwydd cyfyngiadau'r pandemig a arweiniodd at lai o gerbydau ar y ffyrdd.




Ym mis Medi 2020, rhoddodd y Gwasanaeth gymorth i ymdrechion 'Project EDWARD' (*Every Day Without A Road Death*) a'r Gymdeithas ar gyfer Rheoli Risgiau'r Ffyrdd i gadw ffyrdd yn ddiogel ac i ostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau difrifol. Bu staff y Gwasanaeth mewn cysylltiad â Heddlu Gogledd Cymru, gan greu fideo yn hybu diogelwch ar y ffyrdd. Cafodd y fideo ei rannu ar wahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol.




Ym mis Tachwedd, roedd y Gwasanaeth wedi hyrwyddo strategaeth fel rhan o Wythnos Diogelwch y Ffyrdd i geisio gostwng nifer y damweiniau beicio; mae'r symudiad 'Dutch Reach' yn dechneg a ddefnyddir i helpu i atal taro beicwyr wrth agor drws cerbyd yn sydyn.

### Cam Gweithredu: gwreiddio arferion diogelu mewn gweithgareddau dyddiol, a sicrhau bod y rhain yn gyson â pholisi a chyfarwyddyd cenedlaethol

Roedd y Gwasanaeth wedi cefnogi'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2020, gan ddatblygu a lansio modiwl diogelu gorfodol i geisio codi ymwybyddiaeth y staff o bwysigrwydd diogelwch cymunedol. Hefyd, mynychodd cydweithwyr gyfarfodydd ar-lein Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a gweithio gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y De.

Hefyd, bu'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos â phartneriaid fel rhan o'r fforwm cydnerthedd lleol drwy gydol pandemig y coronafeirws, gyda chynlluniau amlasiantaethol yn eu lle er mwyn sicrhau parhad yn niogelwch y cyhoedd. Roedd y fforwm yn galluogi gweithwyr brys allweddol i ymgynghori, cydweithio a datgelu gwybodaeth i'w gilydd ac i hwyluso ymatebion i argyfyngau, megis pandemig COVID-19.

### Cam Gweithredu: parhau i ddatblygu a chyflwyno ymyriadau, ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy dargedu gweithgareddau



Roedd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi hyrwyddo 'Sbarc', sef y masgot diogelwch tân newydd a oedd yn helpu i gyfleu negeseuon diogelwch tân allweddol i blant ledled Cymru. Mae'r cymeriad wedi dal dychymyg plant er mwyn addysgu, gan ganolbwyntio ar negeseuon yn ymwneud ag atal, canfod, dianc a lleihau llosgi bwriadol.

Yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol, cafodd ymyriadau diogelwch tân addasedig eu hailgyflwyno'n raddol ar ôl i'r cyfnod clo effeithio ar y ddarpariaeth gwasanaethau. Parhaodd canghennau'r Cadetiaid Tân i gwrdd o bell, a dechreuodd tîm y Ffenics a'r tîm lleihau llosgi bwriadol ystyried gwahanol ffyrdd o ddarparu ymyriadau i bobl ifanc mewn grwpiau llai o faint.

Gwnaethpwyd gwaith yn rhithiol gydag ysgolion i hyrwyddo diogelwch tân. Bu staff GTAGC yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru i fireinio'n dull newydd a'r cyflwyniadau rhithiol, ac roedd ysgolion yn agored iawn i'r dull newydd hwn o ddysgu am ddiogelwch tân.

Yn ystod yr hydref, gwnaethpwyd gwaith i dargedu cynulleidfaoedd ifanc am ddiogelwch gyda choelcerthi a thân gwyllt. Datblygwyd ymgyrch, a gydlynwyd gan y tîm lleihau llosgi bwriadol a'r addysgwyr sy'n gweithio mewn ysgolion, i sicrhau bod negeseuon hanfodol yn cael eu cyflwyno i bobl ifanc er y cyfyngiadau ar gyflwyniadau wyneb yn wyneb. Datblygwyd cwis diogelwch ar-lein hefyd, a chafodd hwnnw adborth rhagorol gan ysgolion, ynghyd â'r gystadleuaeth gwneud poster a oedd yn annog plant i ystyried negeseuon diogelwch tân.

Roedd y Gwasanaeth wedi ymrwymo hefyd i gymryd rhan yn yr ymgyrch 'BANG' ar ôl apêl gan Heddlu Gogledd Cymru i bobl ystyried sut maent yn dathlu Calan Gaeaf. Rhoddwyd sylw ar atgoffa rhieni i ddiogelu eu plant rhag y risg tân sy'n gysylltiedig â rhai gwisgoedd ffansi.

### Cam Gweithredu: gweithio â sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed

Helpodd y Gwasanaeth i ddatblygu cytundeb gyda'r Groes Goch Brydeinig am ei rhaglen gymorth 'Paratoi, Ymateb, Adfer'. Mae'r cytundeb yn galluogi'r Groes Goch Brydeinig i roi cymorth ar ffurf cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i unigolion sydd wedi'u heffeithio gan argyfyngau. Gallai'r bobl

dan sylw fod wedi profi trawma emosiynol, wedi bod angen cymorth ymarferol ar unwaith (arian, pecynnau glendid, dillad ac ati) yn ogystal â chymorth i ddod o hyd i lety dros dro os nad oedd modd byw yn eu cartref ar ôl tân.

Fe wnaeth y Gwasanaeth ddatblygu rhagor ar ei gysylltiadau â Heddlu Gogledd Cymru ar y fenter 'Strydoedd Diogelach' yn y Rhyl. Mae'r fenter yn ffordd o gyflymu Archwiliadau Diogel ac Iach pan welir materion penodol sy'n golygu bod pobl yn agored i niwed ac angen ymyrraeth. Darparwyd hyfforddiant ar fater diogelu yn yr holl orsafoedd yng Ngogledd Cymru. Roedd yr hyfforddiant, o'r enw 'Gofyn a Gweithredu', yn atgyfnerthu'r broses atgyfeirio ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed. Bu'r Gwasanaeth yn gweithio hefyd â Chartrefi Conwy a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach i denantiaid bregus.

Cafodd y staff eu cynrychioli ar weithgorau ar lefelau lleol a rhanbarthol i hyrwyddo parhad yng ngwerth yr Offer Asesu Risg Codwm fel rhan o'r Archwiliadau Diogel ac Iach. Cynigir y rhain i bobl sydd â risg uwch o gael codwm gartref, a chynigir hefyd i wneud trefniadau neu ddangos y ffordd i bobl sydd eisiau newid rhan(nau) o'u ffordd o fyw, megis rhoi'r gorau i ysmygu neu ddechrau gwneud ymarfer corff.

Hefyd, bu'r Gwasanaeth yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC) i gefnogi dau faes gwaith. Yn gyntaf, partneriaeth i helpu i ddod o hyd i bobl fregus a allai fod wedi mynd ar goll o gartref, ac yn ail, dull o gael mynediad i safleoedd ar ran YGAC pan fo criwiau ambiwlans angen mynd i mewn i rywle ar frys os bydd rhywun yn methu ateb.

### Cam Gweithredu: darparu'r hyfforddiant ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i'r holl staff, gyda hyfforddiant helaethach i staff diogelwch cymunedol ar y rheng flaen

Fel rhan o'i ymrwymiad i ddiogelu ac atal cam-drin domestig, mae'r Gwasanaeth wedi ehangu'r hyfforddiant ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i'r holl staff, gyda hyfforddiant helaethach i staff diogelwch cymunedol ar y rheng flaen. Datblygwyd yr hyfforddiant i ymateb i'r adroddiad fod 25% o gynnydd wedi bod yn nifer y galwadau a'r ceisiadau ar-lein i'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig ers y cyfnod clo cyntaf, yn ôl yr elusen 'Refuge'.

Ym mis Tachwedd 2020, dangosodd y Gwasanaeth ei gefnogaeth i Ddiwrnod y Rhuban Gwyn drwy anfon neges ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol i gefnogi'r fenter fyd-eang, gan godi ymwybyddiaeth ac annog cymorth i bobl weithio gyda'i gilydd a chreu dyfodol heb drais gan ddynion yn erbyn menywod.

## Amcan 2: parhau i gydweithio i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn


Mae’n eithriadol o bwysig gweithio gyda chymunedau lleol i wella diogelwch ac i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn. Bu’r Awdurdod yn gweithio’n agos drwy gydol 2020/21 ag asiantaethau sy’n bartneriaid i ni mewn meysydd targedol i helpu cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysgu, gan eu galluogi i fod yn fwy cadarn rhag argyfyngau.

Parhau y mae’r risgiau a wynebir gan gymunedau, a pharhaodd y Gwasanaeth â’i ymrwymiad yn 2020/21 i weithio gyda, a chefnogi, pobl i fod yn fwy cadarn. Gan gydweithio’n agos â phartneriaid, parhaodd yr Awdurdod i sicrhau bod neges gyd-gysylltiedig yn cael ei chyflwyno, a hynny nid yn unig am ddiogelwch ond hefyd am amrywiaeth o fentrau eraill i geisio gwella llesiant y gymuned gyfan.

### Cam Gweithredu: gweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr/porwyr i ganfod lleoliadau yng Ngogledd Cymru sydd â risg uwch o danau awyr agored/glaswelltir a helpu i ddatblygu cynlluniau ymateb brys




Mae’r Gwasanaeth yn delio ag amrywiaeth o wahanol fathau o danau bwriadol, yn amrywio o danau glaswelltir o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol, llosgi gwastraff o’r cartref/yr ardd, a ffermwyr a thirfeddianwyr yn llosgi glaswelltir sy’n cael ei ganiatáu ym misoedd y gaeaf. Mae ‘Dawns Glaw’ yn dasglu amlasiantaethol Cymru gyfan i godi ymwybyddiaeth o effaith dinistr amgylcheddol a’r perygl i fywyd ac eiddo drwy gynnau tanau glaswellt yn fwriadol.




Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 809 o danau eilaidd yn 2020/21 (45.7% o’r 1,770 o danau yr aethpwyd atynt), ac roedd 276 ohonynt wedi’u cynnau’n fwriadol. Mae’r graff uchod yn dangos bod nifer y tanau eilaidd glaswelltir, coetir a chnydau yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru wedi gostwng ers 2015/16, sef o 13 am bob 10,000 o boblogaeth i 4 am bob 10,000 yn 2019/20.



Yn Ebrill 2020, prynwyd tri cherbyd pwrpasol newydd, wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer delio â thanau awyr agored ar draws ardal y Gwasanaeth. Mae'r cerbydau'n darparu capasiti dŵr mawr, fel eu bod yn gallu aros ar safle'r tân am gyfnodau hir o amser a darparu dŵr dros ardal ehangach. Ar ddechrau'r tymor llosgi dan reolaeth ym mis Hydref, cysylltodd y staff â ffermwyr, tirfeddianwyr a thrigolion ledled Gogledd Cymru i'w hannog i fod yn arbennig o ofalus wrth losgi dan reolaeth ac i roi gwybod i'r Gwasanaeth pan fyddant yn gwneud hynny. Bwriad yr apêl oedd lleihau'r effaith ar adnoddau GTAGC yn ystod y pandemig.

### Cam Gweithredu: parhau i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun rhanbarthol amlasiantaethol ar gyfer tanau awyr agored



Roedd y tanau awyr agored yn Llandysilio-yn-lâl yn 2018 wedi llosgi am 68 diwrnod, roedd angen 328 o beiriannau a 135 o swyddogion, ac roedd wedi arwain at losgi 9 cilometr sgwâr o dir. Yn dilyn y digwyddiad hwn, cynhaliwyd ôl-drafodaeth â rhanddeiliaid ac un o'r argymhellion oedd creu cynllun tân amlasiantaethol. Cymerwyd camau cadarnhaol drwy ddatblygu cynllun gweithredu gan Grŵp yr Amgylchedd Gogledd Cymru, gyda GTAGC yn cymryd yr awenau. Mae'r cynllun yn ddogfen i'w defnyddio gan asiantaethau ymatebol ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- gorchymyn, rheoli a chydlynu;
- rheolaethau ac ardaloedd cortyn;
- cyfathrebu;
- cardiau gwybodaeth â manylion adnoddau partneriaid i'w hystyried mewn tân yn yr awyr agored;
- cynnig agendâu ar gyfer grwpiau cydlynu tactegol/strategol yn ystod tanau yn yr awyr agored

Caiff y cynllun tanau awyr agored ei ymarfer yn ystod gweithdy amlasiantaethol sydd wedi'i drefnu ar gyfer Gorffennaf 2021.


Parhaodd y Gwasanaeth i fod yn bartner gweithredol ar Fwrdd Prosiect Hiraethog. Sefydlwyd y Bwrdd i gynorthwyo i redeg Prosiect Atal Tanau Awyr Agored a Rheoli Hiraethog. Nodau'r bwrdd yw rheoli risg ac effaith tanau awyr agored drwy ganfod ardaloedd sydd â risg uchel o danau awyr agored a gweithredu datrysiadau ymarferol ar gyfer rheoli tir.

### Cam Gweithredu: meithrin perthnasoedd â phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys (JESG) a'r grwpiau achub o ddŵr mewndirol a llifogydd er mwyn gwella cyd-alluoedd yr asiantaethau i helpu pobl y mae llifogydd yn effeithio arnynt

Ym mis Chwefror 2020, ymunodd cydweithwyr o GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru â chriwiau o Ogledd Cymru ar gwrs Gweithredwr Cwch Achub o Ddŵr 'Swiftwater' (SWBRO) a gynhaliwyd ym Mhorthaethwy. Rhoddwyd y sgiliau ar brawf ym mis Awst 2020 pan ymatebodd y criwiau i amddiffyn ac achub trigolion yn dioddef effeithiau Storm Francis. Roedd yr ardaloedd dan sylw yn cynnwys Beddgelert, Abergwyngregyn, Bethesda a Llandygai. Bu'n rhaid i'r criwiau gael pobl allan ac achub 80 o weithiau.



Parhaodd y Gwasanaeth i weithio mewn partneriaeth, ar sail Cymru gyfan, i hyrwyddo negeseuon diogelwch dŵr ac i gefnogi ymyriadau sy'n addysgu'r cyhoedd ynglŷn â pheryglon dŵr agored a gweithgareddau fel neidio i ddŵr o le uchel.




Parhaodd nifer y digwyddiadau'n ymwneud â llifogydd am bob 10,000 o boblogaeth yn gymharol gyson yng Ngogledd Cymru dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2015/16 a 2019/20, gan ostwng dros dro yn is nag 1 digwyddiad am bob 10,000 o boblogaeth yn 2018/19.

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, Gogledd Cymru ochr yn ochr â Dyfnaint a Gwlad yr Haf oedd y Gwasanaethau Tân ac Achub sydd â'r nifer isaf o ddigwyddiadau'n ymwneud â llifogydd am bob 10,000 o boblogaeth yn 2019/20. Gwelodd y ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru gynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau'n ymwneud â llifogydd yr aethpwyd atynt yn 2018/19 a 2019/20, gyda'r cynnydd yn y cyfnod diwethaf wedi digwydd oherwydd y tywydd mawr a'r llifogydd a darodd Cymru yn ystod Chwefror 2020.

## Amcan 3: gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael



Oherwydd yr ansicrwydd ariannol, sy'n cael ei chwyddo gan y pandemig, a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf. Mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys gallu recriwtio a chadw nifer ddigonol o ddiffoddwyr tân gweithredol sy'n cyrraedd y safonau ffitrwydd gofynnol, yn ogystal â'r posibilrwydd o ehangu rôl diffoddwyr tân a allai gynyddu'r cyflog yn fawr.

Bydd rhesymoli costau'r Awdurdod ei hun, a chanfod ffordd gytbwys o ariannu'r Gwasanaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn gymorth i gynnal gwasanaethau tân ac achub i'r dyfodol, gan wneud yr ardal yn fwy cadarn rhag newidiadau demograffig a newidiadau eraill.

### Cam Gweithredu: darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru o fewn y gyllideb y cytunwyd arni

Mae'r Awdurdod wedi parhau'n ymrwymedig i chwarae ei ran yn creu cymunedau cryfach a mwy diogel. Mae'n cydnabod bod angen hyblygrwydd ac arloesedd er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau ariannol yn y dyfodol tra'n gallu cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau.

Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2020/21 wedi nodi £35.9m o ofyniad net ar gyfer y gyllideb, o gymharu â £35.4m ar gyfer 2019/20; datblygwyd hwn gan ddefnyddio darpariaeth gyfredol y gwasanaethau, tra'n ystyried yr angen i gadw'r cynnydd mor isel â phosibl i'r awdurdodau cyfansoddol. Cymeradwywyd y gyllideb refeniw ddrafft gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019, sef cynnydd o 2% o'r naill flwyddyn i'r llall neu £0.5m o'r gwariant net, a chynnydd o £0.7m yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol.

| Awdurdod | Cyfraniad 2019/20 £ | Poblogaeth | Pobl-ogaeth % | Cyfraniad 2020/21 £ | Cynnydd yn y cyfraniadau £ | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,875,914 | 118,001 | 17% | 6,005,505 | 112,607 | 2.2% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,522,798 | 69,879 | 10% | 3,592,944 | 70,146 | 2.0% |
| Cyngor Gwynedd | 6,226,618 | 124,936 | 18% | 6,363,944 | 137,376 | 2.2% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,805,681 | 95,836 | 14% | 4,898,654 | 92,973 | 1.9% |
| Cyngor Sir y Fflint | 7,790,476 | 156,862 | 22% | 7,968,197 | 177,721 | 2.3% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,015,625 | 136,642 | 20% | 7,112,560 | 96,935 | 1.4% |
| **Cyfanswm** | **35,237,112** | **702,156** | **100%** | **35,941,854** | **704,742** | **2%** |

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith sylweddol i ganfod ac adolygu'r holl wariant, yn enwedig costau rheoli'r fflyd a darparu hyfforddiant. Galluogodd hyn y Gwasanaeth i adrodd £0.06m o danwariant yn 2020/21, yn ogystal â chynnal gwerth £3.46m o gronfeydd a glustnodwyd ar gyfer pwysau hysbys yn y dyfodol.

Mae'r datganiad blynyddol manwl o gyfrifon sy'n rhoi crynodeb o berfformiad ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ar gael yma. *caiff y ddolen ei diweddaru pan fydd ar gael

Yn gryno, dyma oedd sefyllfa ariannol yr Awdurdod o ran ei gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21:

| | **Cyllideb 2020/21 £000** | **Alldro 2020/21 £000** | **Amrywiad 2020/2021 £000** |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 27,069 | 25,198 | -1871 |
| Safleoedd | 2,475 | 2,641 | 166 |
| Cludiant | 1,004 | 924 | -80 |
| Cyflenwadau a Thaliadau Trydydd Partïon | 5,145 | 5,656 | 511 |
| Incwm | -2,587 | -2,666 | -79 |
| Cyllid Cyfalaf a Ffioedd Llog | 2,836 | 2,484 | -352 |
| Trosglwyddiadau i mewn/allan o'r Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | 1,642 | 1,642 |
| **Cyfanswm y Refeniw** | **35,942** | **35,879** | **-63** |

### Cam Gweithredu: parhau i fynd ynglŷn ag arbedion effeithlonrwydd mewnol

Gweithredwyd gwahanol arbedion effeithlonrwydd i arbed costau yn ystod 2020/21, ac roeddent yn cynnwys;

- dechrau gwneud y gwaith o brofi offer fel pibellau tân yn fewnol
- adolygiad o'r ddarpariaeth fflyd wen o 120 o gerbydau er mwyn ceisio gostwng nifer y teithiau, y costau rhedeg a'r goblygiadau o ran ôl-troed carbon
- ehangu'r hyfforddiant dwyieithog mewnol ar y cyfryngau i fwy o staff er mwyn lleihau'r angen am adnoddau allanol

Yn ogystal â sicrhau bod ei gyllideb refeniw'n cael ei rheoli'n ofalus, parhaodd yr Awdurdod i graffu ar ei raglen cyfalaf er mwyn sicrhau gwerth gorau. Roedd yr Awdurdod yn dal wedi ymrwymo i sicrhau bod ei asedau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, ac roedd yn parhau i ddadansoddi'r rhaglen gyfalaf mewn perthynas â goblygiadau negyddol posibl i'r refeniw.

### Cam Gweithredu: adeiladu ar fesurau cyfredol ar gyfer monitro perfformiad gan griwiau tân cyn, yn ystod, ac ar ôl digwyddiadau


Parhaodd y Gwasanaeth i adeiladu ar fesurau cyfredol ar gyfer monitro pob agwedd ar berfformiad gweithredol, gan gynnwys darparu archwiliadau ar sail risg, sicrwydd gweithredol a rhannu'r arferion gorau. Aeth gwaith yn ei flaen hefyd ar ddatblygu'r rhaglen Archwiliad Covid yn y Gweithle (CWA) i ymateb i'r cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y cyfnod clo ac a oedd yn sicrhau ein bod yn cadw at y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol. Cwblhawyd 21 CWA erbyn diwedd 2020/21.

Drwy gydol y pandemig, parhaodd y Gwasanaeth i gynnal ymchwiliadau i ddigwyddiadau diogelwch er mwyn hybu gweithle ac amgylchedd gwaith mwy diogel. Datblygwyd system newydd ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelwch yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd hon yn ei gwneud yn haws i gael gafael ar wybodaeth ar gyfer cofnodi ac adrodd.


Yn ystod digwyddiadau brys, Rheolwr y Digwyddiad sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r digwyddiad drwy sefydlu amcanion, cynllunio strategaethau, a gweithredu tactegau. Yn ystod y pandemig, parhaodd y Gwasanaeth i ddatblygu ei hyfforddiant a'i raglenni sicrwydd ar gyfer Rheolwyr Digwyddiad, er mwyn sicrhau bod y rhain yn rhoi sylw i'r rheoliadau ar gadw pellter cymdeithasol a defnyddio platfformau ar-lein pan fo'n briodol.

**Cam Gweithredu: datblygu model mwy hyblyg ar gyfer darparu hyfforddiant a datblygiad, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fwy lleol er mwyn cefnogi anghenion diffoddwyr tân sydd ar gael yn ôl y galw/ar-alwad**

Cyflwynwyd dulliau arloesol o gyflwyno hyfforddiant a datblygiad yn ystod y cyfnod clo er mwyn parhau â gweithgareddau hanfodol. Addaswyd hyfforddiant ar ddiogelu i'r staff i blatfform ar-lein er mwyn gallu rhoi mynediad at yr hyfforddiant VAWDASV fel dewis dros dro yn lle ei gyflwyno wyneb yn wyneb.



Manteisiodd GTAGC i'r eithaf ar ddefnyddio technoleg newydd er mwyn addasu'n well i weithio o bell, megis defnyddio Skype ar gyfer hyfforddiant ar reoli digwyddiadau. Roedd hefyd yn gyfle da i brofiadau o weithio o bell gael eu rhannu â gwasanaethau eraill.



Cyflwynwyd dau fideo hyfforddi newydd ar sgiliau craidd offer anadlu ym mis Gorffennaf er mwyn cyfrannu at ddatblygiad parhaus y diffoddwyr tân ledled y rhanbarth yn ystod y cyfnod clo.

**Cam Gweithredu: canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd y gofal a gaiff ei ddarparu drwy'r System Dyletswydd Ar Gael yn Ôl y Galw/Ar-Alwad (diffoddwyr tân ar-alwad)**

Yn 2016, cafodd y model 20/38 ei gyflwyno gan yr Awdurdod er mwyn cael gwell cydbwysedd rhwng ei adnoddau a'r risg. Roedd y model hwn yn galluogi ffordd newydd o gynllunio, a oedd yn sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adeg o risg gymharol isel, ac o leiaf 38 ar gael ar adeg o risg uwch. Ar draws y Gwasanaeth, bu rheolwyr gweithredol yn adolygu ffactorau lleol sy'n effeithio ar orsafoedd penodol er mwyn penderfynu a oes rhwystrau rhag recriwtio. O ran gorsafoedd a nodwyd fel rhai sy'n gritigol er mwyn darparu'r model 20/38, cynhaliwyd diwrnodau dethol pwrpasol a chafodd ymgeiswyr eu symud ymlaen yn gynt na rhai a oedd yn gwneud cais i orsafoedd â blaenoriaeth is.

Ceisiodd y Gwasanaeth gynyddu effeithiolrwydd y gwaith recriwtio diffoddwyr tân ar-alwad yn ystod 2020/21. Bu'r ymgyrch recriwtio ar-alwad 'Angen Mwy' yn rhedeg am y drydedd flwyddyn ym mis Mawrth i gefnogi'r ymgyrch i recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân ar-alwad ar draws y Deyrnas Unedig. Rhoddwyd datganiadau i'r wasg ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth, a darparwyd baneri a phosteri i orsafoedd ar-alwad i'w dosbarthu yn yr ardaloedd lleol i ddenu sylw darpar recriwtiaid neu gyflogwyr sy'n barod i helpu.

Cyn y cyfnod clo cyntaf, cynhaliodd y Gwasanaeth ddiwrnodau agored wedi'u targedu mewn ardaloedd â blaenoriaeth uchel, a gallai ymgeiswyr ymweld â gorsafoedd i gael mwy o wybodaeth am y swydd ar-alwad a gweld noson ymarfer. Rhagwelir y byddwn yn ailgydio yn yr agwedd yma ar y broses recriwtio yn y dyfodol.

### Cam Gweithredu: adolygu'r gwaith Rheoli Parhad Busnes, a chynyddu gallu'r Gwasanaeth i ddelio â digwyddiadau mawr

Cafodd diffoddwyr tân ledled Cymru eu canmol gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ystod Ebrill 2020 pan ddywedodd ei bod yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu gwaith caled, eu haelfrydigrwydd, eu cadernid ynghyd â'u gallu i addasu i'r heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, drwy barhau i ymateb i ddigwyddiadau fel yr oedd angen.

Cyflwynwyd ffyrdd newydd o weithio i staff y Gwasanaeth ym mis Mai, tra'n parhau i ddarparu gwasanaeth i gymunedau a chynnal diogelwch y staff. Roedd y mesurau newydd a gyflwynwyd yn cynnwys patrwm shifftiau hyblyg i staff yr ystafell reoli i gyfrannu at gadernid gweithrediadau'r ystafell reoli, cyflwyno cyfyngiadau o ran cadw 2 fetr o bellter cymdeithasol, a sicrhau bod y staff yn defnyddio'r un gweithfannau o ddydd i ddydd.

Roedd parhad busnes yn faes lle roedd y sylw mwyaf drwy gydol 2020/21, gyda'r Gwasanaeth yn symud yn esmwyth at gynlluniau parhad ar gyfer y pandemig, at ffyrdd newydd o weithio, ac at gyflwyno trefniadau gweithio o gartref.



Cyflwynwyd y gell trawsnewid ym mis Mai fel ffordd o hwyluso ymateb cydlynedig tuag at 'normal newydd'. Roedd y gell trawsnewid yn sicrhau dull cyson ar gyfer meysydd cyffredin a chytuno ar flaenoriaethau. Roedd y dull hwn yn gymorth i ddeall yn well y rhyngddibyniaethau rhwng adrannau a phartneriaid allanol.

Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd y byddai'r Gwasanaeth yn mynd ati'n raddol i gyflwyno profion llif unffordd cyflym fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer profion COVID-19 er mwyn cefnogi a chynnal gwasanaethau cyhoeddus allweddol.


### Cam Gweithredu: parhau i fonitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni a gynhelir mewn partneriaeth â sefydliadau eraill

Mae ystadegau gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu bod adroddiadau am 3,000 o bobl yn mynd at goll o gartref bob blwyddyn. Gall defnyddio adnoddau'n gynnar helpu i wella'r siawns o ddod o hyd i bobl a allai fod wedi mynd ar goll am amryw o resymau. Parhaodd y Gwasanaeth i gefnogi Heddlu Gogledd Cymru gyda'r cynllun 'Ar Goll o Gartref' pan fo staff y Gwasanaeth yn helpu yn y cyfnodau cynnar hanfodol o chwilio am bobl sydd ar goll. Bydd y criwiau'n aros ar alwad ar gyfer digwyddiadau'r gwasanaeth tân, ond byddant yn ymateb i helpu'r Heddlu i ganfod pobl sydd ar goll o gartref (pan fo angen). Bydd y staff yn defnyddio eu hyfforddiant cymorth cyntaf i helpu cyn i gydweithwyr o YGAC gyrraedd Service continued to support NWP with the 'Missing From Home' scheme where Service personnel.

Cafodd y cynllun ei ehangu yn 2018/19 i gynnwys staff o bob un o'r 44 o orsafoedd tân sy'n gallu bod ar gael i roi cymorth, ac fel trefniant sy'n cael ei gydlynu'n ffurfiol, dyma'r cyntaf o'i fath yn y wlad.

Cyflwynwyd y cynllun 'Cael Mynediad' yn 2018/19 a pharhaodd drwy 2020/21, sef gallai criwiau gweithredol barhau i gefnogi YGAC i gael mynediad i eiddo at bobl sydd angen gofal meddygol a'r rhai sy'n methu eu helpu eu hunain. Mae'r cynllun yn galluogi criwiau i gael mynediad yn amserol gan achosi llai o ddifrod i'r eiddo a gallu rhoi cloeon newydd ar y drysau er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n ddiogel cyn gadael. Caiff yr hyfforddiant arbenigol hwn ei drefnu drwy Fwrdd Cydweithredu'r Gwasanaethau Brys, ac mae wedi cael ei ddarparu i'r holl staff amser cyflawn.

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr adegau rydym wedi mynd allan i gynorthwyo mewn digwyddiadau 'Ar Goll o Gartref' a 'Chael Mynediad'. Mae'r Gwasanaeth wedi mynd at niferoedd cynyddol o ddigwyddiadau 'Cael Mynediad' bob blwyddyn ers 2018/19. Mae'r cynnydd yn y digwyddiadau 'Cael Mynediad' yr aethpwyd atynt, a'r gostyngiad yn nifer y digwyddiadau 'Ar Goll o Gartref', yn 2020/21 yn debygol o fod wedi digwydd yn sgil y cyfyngiadau ar symudiadau oherwydd y pandemig.




Bob blwyddyn, mae tua 8,000 o bobl yng Nghymru yn cael ataliad sydyn y galon. Mae diffibriliwr yn ddyfais sy'n achub bywydau, i'w ddefnyddio i roi sioc i'r galon yn ystod ataliad y galon. Ym mis Chwefror 2021, ymunodd y Gwasanaeth ag YGAC i gefnogi'r ymgyrch flynyddol 'Defibruary', drwy godi ymwybyddiaeth ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol. Aeth ati hefyd i gofrestru'r holl ddiffibrilwyr sydd ar safleoedd y Gwasanaeth ar rwydwaith genedlaethol o ddiffibrilwyr.

Mae staff o amrywiaeth o adrannau yn GTAGC wedi gwirfoddoli i fod ar gael i roi cymorth i'r rhaglen frechu ar gyfer COVID-19. Ym mis Chwefror 2021, bu sawl aelod o'r staff yn dechrau ar secondiadau i ddarparu cymorth rheolaethol a gweinyddol i gydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn lleoliadau ar y cyd yn Llandudno a Llanelwy. Roedd eu gwaith yn cynnwys cysylltu ag aelodau o'r cyhoedd i ad-drefnu apwyntiadau drwy'r ffôn a'r e-bost.

## Amcan 4: parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid



Yn ystod 2020/21, parhaodd yr Awdurdod i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chymunedau ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.


Mae'r pandemig wedi arwain at heriau digynsail, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu â phobl er mwyn sicrhau bod negeseuon yr Awdurdod yn parhau i gyrraedd pawb, yn enwedig grwpiau a chymunedau sy'n anoddach eu cyrraedd.

Roedd dull cydweithredol ag awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill wedi sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang drwy gydol yr amodau heriol a brofwyd yn ystod 2020/21.


### Cam Gweithredu: codi ymwybyddiaeth a helpu i atal llosgi bwriadol a gostwng nifer y tanau bwriadol a'r galwadau

Roedd yn fwy anodd i atal llosgi bwriadol yn ystod 2020/21 oherwydd mai ychydig o gyswllt corfforol oedd yn bosibl â chymunedau yn sgil y cyfnod clo. Llwyddwyd i weithredu cynllun parhad busnes er hynny, er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau o bell heb darfu llawer ar wasanaethau. Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 2,314 o alwadau diangen yn ystod 2020/21, ac roedd 1,214 o'r rheini wedi dod o systemau larymau tân awtomatig.

Mae galwadau diangen maleisus yn golygu risg sylweddol i gymunedau lleol, ac yn ddiangen maent yn peryglu'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael ag argyfyngau go iawn. Drwy gydol y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2015/16 a 2019/20, mae GTAGC wedi ymateb yn gyson i lai nag 1 galwad ddiangen faleisus am bob 10,000 o boblogaeth. Mae'n bosibl fod gwaith ymgyrchu ac addysgu targedol ynghylch effeithiau galwadau diangen maleisus wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y niferoedd isel. Yn fwy eang, da yw gweld gostyngiad cyson cyffredinol yn nifer y galwadau diangen maleisus yn y Gwasanaethau Tân ac Achub eraill dros y cyfnod o bum mlynedd, yn enwedig yn Ne Cymru.



Yn 2020/21, aeth y Gwasanaeth at 1,770 o danau, a nodwyd bod 446 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol. Mae nifer y prif danau bwriadol yr aeth y Gwasanaeth atynt wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2015/16 a 2019/20 gan amrywio rhwng 3 a 4 am bob 10,000 o boblogaeth. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd strategaethau parhaus i atal llosgi bwriadol er mwyn atal cynnydd yn y dyfodol. Hefyd, rhoddodd y Gwasanaeth hyfforddiant i 54 o recriwtiaid newydd yn Heddlu Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol a Swyddogion Heddlu. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â thanau bwriadol, a'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth i ostwng nifer yr achosion o'r fath.




Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Charchar EM Berwyn i ostwng nifer y tanau bwriadol yn y carchar, sef her sy'n wynebu llawer o garchardai ledled y Deyrnas Unedig. Cytunwyd â Llywodraethwr Carchar EM Berwyn y byddai aelodau o staff y carchar yn cael eu hyfforddi gan dîm lleihau llosgi bwriadol GTAGC yn y cynllun ymyrraeth oedolion i geisio gostwng nifer y tanau bwriadol mewn carchardai drwy godi ymwybyddiaeth am ganlyniadau llosgi bwriadol. Mae'r cynllun ymyrraeth oedolion yn canolbwyntio ar garcharorion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o losgi, carcharorion newydd a rhai sy'n troseddu tra maent yn y carchar.

Yn ystod 2020/21, roedd grŵp Plant a Phobl Ifanc Gogledd Cymru wedi cyflwyno sesiwn wedi'i recordio ymlaen llaw i wasanaeth boreol rhithiol drwy Microsoft Teams mewn ysgol. Roedd yr ysgol dan sylw wedi gwneud cais am sesiwn gan ei bod yn poeni am ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnau tanau bwriadol. Cyflwynwyd y gwasanaeth yn ddwyieithog, ac roedd yn cynnwys cynllun gwers yn croesgyfeirio i'r cwricwlwm Cymreig yn yr ysgol. Roedd 540 o ddisgyblion wedi mynychu'r sesiwn.

### Cam Gweithredu: ymgysylltu â chyflogwyr lleol, cymunedau a phobl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan dân ac argyfyngau eraill i ddatblygu gweithgareddau ac ymgyrchoedd ataliol




Ym mis Ebrill, bu cydweithwyr tân ac achub ledled Cymru yn gweithio ag awdurdodau lleol i gyhoeddi negeseuon ynglŷn â llosgi dan reolaeth, gan dynnu sylw at beryglon tanau sbwriel er mwyn annog y cyhoedd i beidio â llosgi gwastraff yn eu gerddi.

Bu'r tîm lleihau llosgi bwriadol yn weithgar hefyd mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru i helpu i ganfod llosgwyr bwriadol er mwyn atal mwy o straen ar y Gwasanaeth yn ystod y pandemig.



Ym mis Gorffennaf, bu'r Gwasanaeth yn cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir y Fflint fel rhan o 'Operation Blue Sword', sef ymgyrch i fynd i'r afael â masnachu cyffuriau yn yr ardal. Dyma enghraifft dda o fanteision partneriaeth a chydweithio, gan gynnig cymorth a rhannu gwybodaeth er mwyn amddiffyn cymunedau.

Dechreuodd yr ymgyrch flynyddol am ddiogelwch nosweithiau tân gwyllt tua diwedd mis Hydref, ac roedd yn ail-bwysleisio negeseuon allweddol yn annog trigolion i fynd i nosweithiau cymunedol yn hytrach na phrynu tân gwyllt. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, roedd cyngor Llywodraeth Cymru yn atal unrhyw nosweithiau tân gwyllt.




Yn eu cynllun o'r enw 'Creating Safer Communities Plan 2017-2022', mae Gwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf yn amlinellu eu ffocws ar wasanaethau diogelwch cymunedol sydd yn eu barn nhw wedi helpu i ostwng nifer y digwyddiadau yn eu cymunedau. Mae eu gweithgareddau diogelwch cymunedol yn debyg i'r rhai sydd wedi cael eu cynnal gan GTAGC, ac maent yn cynnwys ymweliadau diogelwch tân yn y cartref, pecynnau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc, dull targedol o gefnogi'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl, a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi cymunedau lleol yn y ffordd orau.

### Cam Gweithredu: hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod meysydd â'r risg mwyaf yn cael eu blaenoriaethu, er enghraifft, tanau a achosir gan ddulliau coginio


Ym mis Gorffennaf 2020, roedd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi lansio'r ymgyrch #dimond1 i helpu i godi ymwybyddiaeth o beryglon tanau coginio. Pan fo pobl yn treulio mwy o amser gartref, gall y risg o dân gynyddu a gall pethau sy'n tynnu sylw rhywun arwain at dân a allai fod yn ddinistriol.




Yn ôl yr ymchwil, rhywbeth yn tynnu sylw neu syrthio i gysgu yw'r ffactor dynol mwyaf sy'n gyfrifol am danau mewn ceginau yng Nghymru. Gall gadael bwyd i goginio arwain at gegin lawn mwg, at ddifrod i offer neu yn yr achos gwaethaf, at anaf neu niwed. Pethau eraill sy'n achosi tân yw gadael eitemau ar yr hob neu'n rhy agos i'r cwcer, popty budr neu sosban saim wedi gorboethi.

Mae mwy na 40% o'r holl danau yn y cartref yn dechrau yn y gegin, ond yn ystod y pandemig roedd y ffigwr hwn wedi codi'n uwch fyth gan fod pobl yn treulio mwy o amser nag arfer yn coginio yn eu ceginau.

Roedd yr ymgyrch #dimond1 yn cynnwys fideos o staff y Gwasanaeth, graffeg effeithiol a chystadleuaeth ar y cyfryngau cymdeithasol i geisio codi ymwybyddiaeth o bethau sy'n gallu tarfu, a lleihau'r effaith niweidiol bosibl.




Bu'r Gwasanaeth yn gweithio'n galed hefyd i sicrhau bod ymgyrchoedd targedol wedi parhau yn 2020/21, er gwaethaf heriau'r pandemig. Cafodd yr ymgyrchoedd 'Dawns Glaw' a 'Llosgi dan Reolaeth' eu cydlynu gan y Grŵp Llywio Ymgyrchoedd a'u harwain gan aelodau'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Hefyd, roedd aelod o'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol wedi tynnu llun ohoni'i hun yn profi larwm mwg ar ben pob un o'r 15 copa yn Eryri sydd dros 3,000 o droedfeddi dros gyfnod o 17 awr i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd profi larymau mwg yn rheolaidd. Cafodd y clip fideo ei wylio dros 2,000 o weithiau ar y cyfryngau cymdeithasol, a gellir ei wylio yn y fan yma.

Parhaodd y Gwasanaeth i gefnogi Wythnos Diogelwch Plant, sef ymgyrch flynyddol gan CAPT (Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant) i geisio codi ymwybyddiaeth o risgiau damweiniau plant a sut gellir eu hatal. Yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth, ymwelodd y staff â wardiau'r plant yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam yn ogystal ag ysgolion lleol i siarad â phlant ynglŷn â sut i aros yn ddiogel gartref. Roedd y negeseuon diogelwch yn cynnwys pwysleisio pa mor bwysig yw'r canlynol:

- gosod larwm mwg a chael plant i gyfrannu at ei brofi'n rheolaidd
- enwebu plentyn i fod yn 'Hyrwyddwr Dianc' oherwydd mae ymarfer llwybrau dianc yn helpu i wella'r siawns o ddianc yn ddiogel
- rhybuddio am beryglon canhwyllau, tanwyr a matsis
- trafod sut i ffonio 999 er mwyn gwneud yn siŵr fod plant yn gwybod pa rif i'w ffonio mewn argyfwng, a sicrhau eu bod yn dilyn y canllaw, sef 'ewch allan, arhoswch allan, a ffoniwch 999'

**Cam Gweithredu: sicrhau bod y cytundebau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn dal yn gyfredol, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo'n briodol**

Mae Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) yn cefnogi sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddau, a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru. Mae'r dull cyson a hyrwyddir gan WASPI wedi helpu'r Gwasanaeth i ddatblygu ffyrdd effeithiol o rannu gwybodaeth bersonol mewn modd effeithiol a chyfreithlon.

Mae'r Adran Diogelwch Cymunedol wedi adolygu, a phan fo angen, wedi diweddaru ei Chytundebau Datgelu Data gyda'r bwriad i'w trosglwyddo i gofrestr ganolog yn y Gwasanaeth ar ôl eu cwblhau.

**Cam Gweithredu: cynnal arolwg iechyd a llesiant gyda'r holl staff, a hyrwyddo gweithgareddau ymhob rhan o'r Gwasanaeth**

Cymerodd y Gwasanaeth nifer o gamau yn ystod y cyfnod clo i sicrhau bod ffitrwydd, iechyd a llesiant yn cael eu hyrwyddo yn ystod 2020/21, gan sicrhau bod gweithwyr yn cael eu hannog i gael ffordd o fyw ffit ac iach. Cynhaliwyd arolwg iechyd a llesiant i helpu i weld beth oedd barn y gweithwyr am eu llesiant eu hunain.

Crëwyd tîm lles arbenigol newydd i helpu i roi cymorth i'r staff a'u rheolwyr. Roedd eu gwaith hefyd yn cynnwys sicrhau bod staff a oedd yn mynd yn sâl gyda COVID-19 yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol pan fo angen.




Roedd hybu ffitrwydd corfforol fel ffordd o hybu iechyd a llesiant ymysg y staff wedi cael sylw drwy gydol y pandemig, gan ddarparu syniadau a ffyrdd newydd o gynnal ffitrwydd corfforol dan amgylchiadau anodd.

Defnyddiwyd dull rhagweithiol o wella llesiant y staff gan wasanaethau tân ac achub eraill yn ystod 2020/21. Ceisiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Henffordd a Swydd Gaerwrangon, er enghraifft, weithredu dulliau ymarferol o gasglu, coladu a gweithredu ar sail adborth a syniadau gan yr holl staff er mwyn datblygu a hyrwyddo diwylliant o ddysgu.

**Cam Gweithredu: cynnal adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol**

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'i Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol, gan fod y strategaeth gyfredol yn dod i ben. Roedd yr adolygiad wedi cael ei drefnu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ond oherwydd y pandemig gohiriwyd hyn a chaiff ei gynnal yn 2021/22. O ganlyniad i'r oedi, caiff yr adolygiad ei ymestyn i gynnwys adolygiad o gyfathrebu mewnol hefyd.

## Amcan 5: cadw gweithlu sy'n addas o gydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg



Mae'r Awdurdod wedi parhau i ymestyn ei ymdrechion i ddenu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth yn y cymunedau a wasanaethir ganddo.

Mae cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i ddiwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod: ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant; awydd i ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth; diogelu cymunedau, a gwerthfawrogi ei bobl. Mae gweithlu sy'n cael ei ddatblygu a'i hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel yn un sydd o fudd i bobl Cymru, ac mae fframwaith wedi'i ddatblygu'n dda i reoli perfformiad yn cefnogi'r rheolwyr i gyflawni gofynion eu swyddi.

## Cam Gweithredu: adolygu a rhoi bywyd newydd yn y Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Parhaodd y cynnydd yn 2020/21 i ddatblygu strategaeth iechyd, diogelwch a llesiant. Er nad yw hon wedi'i chwblhau eto, mae'n parhau i gael ei chefnogi gan holl adrannau'r Gwasanaeth.

Rhoddwyd yr asesiadau iechyd a ffitrwydd ar stop oherwydd y pandemig, ond ailgydiwyd ynddynt yn Rhagfyr 2020, gyda'r rhagofalon diogelwch priodol. Roedd hyn yn sicrhau bod gweithwyr gweithredol yn parhau'n ffit yn gorfforol, ac roedd yn rhan bwysig o wneud yn siŵr fod diffoddwyr tân, a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, yn parhau i fod yn ddiogel.

Yn ystod y pandemig, gwnaethpwyd newidiadau hefyd i'r polisi oriau gwaith amrywiol (amser fflecsi) i helpu staff a oedd â chyfrifoldebau gofalu i alluogi arferion gweithio mwy hyblyg.

Er mwyn cefnogi'r staff a oedd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan COVID-19, sefydlwyd cell drawsnewid a'r prif ffocws oedd cyswllt cyfathrebu rhwng teulu'r aelod o'r staff a'r Gwasanaeth. Roedd cymorth ar gael gan y Gell fel yr oedd angen, megis rhoi cefnogaeth i'r teulu wrth ddelio â'r cyfryngau petai aelod o'r staff yn yr ysbyty. Sefydlodd y Gwasanaeth Linell Gyngor ar gyfer staff a oedd ag unrhyw ymholiadau ychwanegol yn ystod cyfnod COVID-19. Lluniwyd dogfen â chwestiynau cyffredin, a diweddaru honno'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff yn cael yr wybodaeth berthnasol.

Bu'r Gwasanaeth yn hyrwyddo wythnos ymwybyddiaeth o iechyd meddwl y byd ym mis Mai 2020. Cydnabuwyd ei bod yn bwysicach nag erioed, oherwydd yr heriau'n gysylltiedig â'r pandemig, i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd meddwl. Cafodd y staff eu hannog i gymryd rhan mewn gwahanol dasgau a oedd yn cyfrannu at y pum ffordd o wella llesiant, tra'n ymgorffori caredigrwydd, boed hynny tuag at eu hunain neu at rywun arall.

## Cam Gweithredu: gwella ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o'r gwerthoedd craidd diwygiedig drwy brosesau recriwtio, cyfleoedd i gadw a chamu ymlaen a chyfathrebu mewnol

Mae gwerthoedd craidd diwygiedig y Gwasanaeth wedi cael eu cynnwys yn yr holl becynnau gwybodaeth newydd ar gyfer recriwtio, megis y brentisiaeth ym maes cyllid. Erbyn hyn, mae'r gwerthoedd craidd wedi'u cynnwys yn y pecynnau newydd ar gyfer y broses ddyrchafu i weithwyr yr ochr gweithredol. Mae'r safonau ymddygiad, y ddogfen bolisïau gysylltiedig, a'r llyfryn cynefino diwygiedig a luniwyd i gyd yn ymgorffori'r gwerthoedd craidd (mae'r olaf yn rhan o'r broses gynefino ar gyfer staff a gafodd eu recriwtio yn ystod y cyfnod clo).

Roedd y protestiadau byd-eang yn erbyn hiliaeth ym mis Mai yn gyfnod addas i ail-gadarnhau gwaith Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol a sefydlwyd yn 2019 i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol yn y gweithle. Roedd y Grŵp wedi mynd ati'n ddiweddar i adnewyddu gwerthoedd craidd y Gwasanaeth ond wedi methu cwrdd fel yr arfer oherwydd y pandemig. Roedd gwaith y grŵp, a'r gwerthoedd craidd, yn ffordd o gadarnhau'r ymrwymiad i gofleidio cynhwysiant, i wrthod hiliaeth ac i herio camwahaniaethu.

Bu'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod y gwaith o gydlynu a gweithredu prosesau recriwtio a dethol yn gadarn ar bob lefel, ac roedd y gwerthoedd craidd yn flaenllaw yn y broses o'u dylunio. Roedd y sylw ar ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth a darparu gwasanaeth cyflawn i'r gymuned yn cynnwys cylchdroi prentisiaid newydd drwy leoliadau mewn adrannau arbenigol i sicrhau dealltwriaeth a gwybodaeth gynhwysfawr o holl swyddogaethau'r Gwasanaeth, a datblygu cynlluniau pwrpasol ar gyfer camu ymlaen i ymgeiswyr â 'photensial uchel'. Cyflwynwyd y cyfranogwyr i amrywiaeth o gyfleoedd datblygu a chyfoethogi er mwyn eu cefnogi i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd, megis amrywiaeth o ddosbarthiadau meistr er mwyn gwella a datblygu eu setiau sgiliau.

Tynnwyd sylw yn ystod y pandemig at bwysigrwydd y gwerthoedd craidd a ddiwygiwyd gan is-grŵp y Gwasanaeth, a hynny er mwyn ail-gadarnhau ymrwymiad y Gwasanaeth i gofleidio cynhwysiant yn enwedig gan fod risg fod y feirws am gynyddu rhai anghydraddoldebau, gan ddangos bod angen i ni sefyll gyda'n gilydd er tegwch a chydraddoldeb.

### Cam Gweithredu: datblygu arferion cyflogaeth i geisio cynyddu rhagolygon cyflogaeth i bobl a allai fel arall ei chael yn anodd cael mynediad at waith, a blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau

Cafodd Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ei sefydlu gan y Cydgyngor Cenedlaethol yn 2015 er mwyn ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol megis bwlio ac aflonyddu. Sefydlwyd is-grŵp trawsbynciol ar lefel leol yn y Gwasanaeth, ac mae'n cynnwys staff, cyrff cynrychioliadol ac uwch reolwyr, dan gadeiryddiaeth un o'r Cynghorwyr. Parhaodd gwaith yr is-grŵp gyda blaengynllun gwaith i ail-gadarnhau a gwreiddio ymrwymiad y Gwasanaeth i gofleidio cynhwysiant. Roedd y gwaith yn cynnwys hyrwyddo'r grŵp fel ymateb i brotestiadau yn erbyn hiliaeth, gan atgoffa'r staff i gofleidio cynhwysiant ac i wrthod hiliaeth. Hyrwyddwyd digwyddiad ar-lein o'r enw 'Pride Inside' i annog y staff i gymryd rhan ac i gefnogi mis 'Pride'.

Parhaodd tîm iechyd a llesiant y Gwasanaeth i gymryd rhan yn y broses recriwtio, gan ddarparu asesiadau ffitrwydd rhithiol a diwrnodau/digwyddiadau gweithredu cadarnhaol ar-lein i gefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Roedd 'Ffitrwydd Tân' yn gyfle i ddatblygu merched sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Gwasanaeth, ac roedd yn cynnwys ymgysylltu a helpu wrth arwain at y cyfnod recriwtio.

Mae ystadegau cydraddoldeb yn cael eu diweddaru ymhob cam o'r broses recriwtio ac maent yn cynnwys nifer yr ymgeiswyr o'u cofrestriad cychwynnol drwodd at bob un o'r camau recriwtio. Caiff yr ystadegau eu dadansoddi yn ôl rhywedd, oedran, gwybodaeth sensitif, sgiliau Cymraeg a chyfraddau gadael o bob cam o'r broses.

Ym mis Mawrth, dathlwyd diwrnod rhyngwladol y merched gan y Gwasanaeth. Y thema ar gyfer y flwyddyn oedd #DewisHerio, ac roedd yn adlewyrchu bod pawb yn gyfrifol am ei feddyliau a'i weithredoedd ei hun, a bod modd herio rhagfarn ac anghydraddoldeb ar sail rhywedd.

Fel GTAGC, ail-bwysleisiodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn bwysigrwydd sgiliau Cymraeg i bobl Gwynedd a Môn yn eu Hadroddiad Blynyddol (2020-2021). Ail-gadarnhaodd y bwrdd ei ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg fel dewis iaith ar gyfer cyfathrebu rhwng sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.

### Cam Gweithredu: parhau i geisio cyfleoedd newydd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth yn y Gwasanaeth

Ar ôl i'r gwaith o recriwtio prentisiaid ddod i stop ar ddechrau'r pandemig, roedd y Gweithgor Ymarferwyr Adnoddau Gweithredol (ORPWG) wedi gallu ailgydio yn y broses recriwtio ym mis Awst. Ailddechreuodd yr asesiadau ymarferol, gyda phrotocolau diogelwch llym, er mwyn dethol y rhai a oedd yn addas ar gyfer y cam nesaf o'r broses ddethol. Roedd y Gwasanaeth yn cynnig prentisiaethau ar gyfer diffoddwyr tân ac arweinwyr y dyfodol gan ddilyn y rhaglen hyfforddi 'Sgiliau er Cyfiawnder' a darparu llwybr clir ar gyfer swydd y diffoddwr tân a'r rheolwr modern. Mae'r fframwaith prentisiaethau arweinydd y dyfodol yn ymgorffori'r modiwlau hyfforddi prentisiaid diffoddwyr tân ond mae cyfle ychwanegol i ddatblygu i swydd rheolwr goruchwyliol ac uwch.

Yn debyg i GTAGC, ceisiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn addasu'r cyfleoedd recriwtio drwy ehangu'r hyn roeddent yn ei gynnig fel prentisiaethau er mwyn ceisio helaethu'r llwybrau tuag at swydd diffoddwr tân.

### Cam Gweithredu: darparu hyfforddiant i gadetiaid tân i godi ymwybyddiaeth o raglenni fel 'Rhaglen Eiriolaeth Ieuenctid y Rhuban Gwyn', sy'n ceisio galluogi pobl ifanc i fod yn fodelau rôl ymysg ffrindiau er mwyn helpu i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn merched

Mae Rhaglen Eiriolaeth Ieuenctid y Rhuban Gwyn yn darparu prosiectau ar gyfer ysgolion, grwpiau ieuenctid a phobl ifanc. Unwaith eto, bu'r Gwasanaeth yn hyrwyddo'r rhaglen sy'n annog pobl 14-18 oed i weithredu fel modelau rôl ymysg eu ffrindiau a chefnogi gwaith White Ribbon UK i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn merched.

Addasodd y tîm Diogelwch Tân yn ystod y pandemig drwy ddefnyddio cyfleusterau ar-lein fel ffordd o barhau i ysbrydoli cadetiaid tân a disgyblion ysgol. Cafodd staff o dîm y Ffenics, ynghyd â staff cefnogol eraill, eu canmol yn fawr gan ddisgyblion a staff Ysgol Uwchradd y Rhyl ym mis Chwefror ar ôl cyflwyno sesiynau arloesol ar-lein. Ers dechrau'r cyfnod clo, mae tîm y Ffenics wedi cynnal mwy na 1,000 o ymgysylltiadau â phobl ifanc drwy sesiynau ar-lein.

Ymrwymodd Gwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf i roi sylw i ddiogelwch a hyfforddiant i ddiffoddwyr tân a staff, ac amlinellwyd hyn yn eu cynllun 'Creating Safer Communities Plan 2017-2022'. Yn debyg i GTAGC, eu dull o wneud hyn oedd sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu defnyddio wrth recriwtio a chadw'r bobl gywir, darparu dull ar y cyd o ddelio â datblygu gyrfa a chynllunio ar gyfer olyniaeth, a sicrhau bod diogelwch yn ganolog i'r holl benderfyniadau a gweithredoedd.

### Cam Gweithredu: adnewyddu'r Wobr Iechyd Corfforaethol Aur

Cyn y cyfnod clo, roedd aseswyr allanol o Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymweld i ddarganfod mwy am y gwaith a wneir i hybu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r gymuned yn ehangach. Cafwyd adborth cadarnhaol a oedd yn tynnu sylw at yr agwedd flaengar tuag at iechyd a llesiant. Cafodd y Wobr Iechyd Corfforaethol Aur ei hadnewyddu ym mis Chwefror.

Roedd gwaith yn dal i fynd ei flaen ar gyfer cais y Gwasanaeth am y Wobr Iechyd Corfforaethol Platinwm. Mae'r lefel Platinwm yn cydnabod cyflogwyr sy'n dangos ymrwymiad sefydliadol i gefnogi llesiant amgylcheddol er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell i genedlaethau'r dyfodol. Roedd yn rhaid i'r Gwasanaeth ddangos ymrwymiad i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a lleihau'r niwed amgylcheddol drwy waith ar lefel strategol. Bu'n rhaid gohirio'r diwrnod asesu oherwydd COVID-19, a threfnwyd asesiad arall ar-lein ar gyfer Mai 2021.

### Cam Gweithredu: parhau i gyfrannu at y 'Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadau' ar gyfer Cymru gyfan

Parhaodd y gwaith ar weithredu'r Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadau ar gyfer Cymru gyfan 2018/21. Roedd yr elfennau allweddol o'r strategaeth yn cynnwys sicrhau adnoddau, iechyd a llesiant, ffitrwydd, gweithleoedd cynhwysol (cydraddoldeb ac amrywiaeth), gwobrwyo a chydnabod, systemau rheoli gwybodaeth, a hyfforddi a datblygu. Roedd y strategaeth yn tanategu ymrwymiad y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i ddysgu gydol oes ac i gymhwysedd y gweithlu, gan gefnogi ffyrdd newydd o weithio er lles y cyhoedd yng Nghymru.

### Cam Gweithredu: gwella ffyrdd o gefnogi staff i fod yn arweinwyr y dyfodol

Yn ystod 2020/21, parhaodd y Gwasanaeth i ddatblygu ei broses recriwtio a dethol er mwyn sicrhau cadernid ar bob lefel. Cafodd prentisiaid diffoddwyr tân eu symud o gwmpas adrannau'r Gwasanaeth i'w helpu i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o bob swyddogaeth a'u cyfrifoldebau.

Datblygwyd cynlluniau camu ymlaen ar gyfer ymgeiswyr ar raglen 'potensial uchel' y Gwasanaeth, a ddyluniwyd i gyflymu cynnydd ymgeiswyr dawnus. Cyflwynwyd yr ymgeiswyr i amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu a chyfoethogi, megis dosbarthiadau meistr, er mwyn eu helpu i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd ac i adeiladu ar eu setiau sgiliau.

### Cam Gweithredu: cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2021-2024

Yng Ngogledd Cymru, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (NWPSEN), sy'n cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ymddiriedolaeth y GIG, Awdurdodau Lleol, Heddlu Gogledd Cymru, YGAC ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn helpu i rannu'r arferion gorau a gwybodaeth ac yn cydweithio er mwyn cefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid.

Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2021-2024 ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag adrannau ar draws y Gwasanaeth, a chafodd ei gefnogi gan ganfyddiadau digwyddiad ymgynghori a gydlynwyd gan NWPSEN ym mis Mai 2019, pan wahoddwyd nifer fawr o grwpiau lleol ac unigolion i rannu eu profiadau. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ei gyhoeddi yn 2020.

## Amcan 6: datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd

Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru yr uchelgais o sicrhau sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy'n ceisio cefnogi'r sector cyhoeddus i bennu man cychwyn, monitro ac adrodd ynghylch cynnydd tuag at niwtraliaeth garbon.

Yn 2020/21, ail-gadarnhaodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i wella'r perfformiad amgylcheddol a'i ystyried ymhob agwedd ar ei waith, o atal tanau i wneud yn siŵr ei fod yn ystyried technoleg sy'n garedig tuag at yr amgylchedd. Hefyd, ymrwymodd yr Awdurdod i adnewyddu ei weledigaeth amgylcheddol i fod yn sefydliad sy'n fwy ymwybodol ac yn fwy cyfrifol tuag at yr amgylchedd.

### Cam Gweithredu: sefydlu Bwrdd Strategol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer yr Awdurdod

Mae'r Gwasanaeth yn parhau wedi ymrwymo i sefydlu Bwrdd Strategol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol. Mae'r heriau digynsail oherwydd COVID-19 wedi achosi oedi yn y cynnydd wrth ddatblygu'r strategaeth yn ystod 2020/21, ond mae'r Gwasanaeth yn cydnabod y bygythion sylweddol oherwydd y newid yn yr hinsawdd ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu'r strategaeth. Parhaodd yr Awdurdod i fynd ynglŷn â'i gynllun gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, gyda gwaith cynnal a chadw arfaethedig i geisio lleihau'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon. Mae nifer o safleoedd wedi cael boeleri/cyfarpar newydd a gwaith uwchraddio ar ddeunyddiau'r adeiladau yn ystod 2020/21.

### Cam Gweithredu: gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru i ddeall y newid yn yr hinsawdd o safbwynt rhanbarthol

Ym mis Ionawr2020, cytunodd Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru (NWRLB) i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd. Roedd hyn yn ymateb i uchelgais Llywodraeth Cymru y cyfeirir ati uchod, ac roedd yn cael ei gefnogi gan adroddiad a gomisiynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac yn cael ei gefnogi gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru, sef Lliniaru Hinsawdd Gogledd Cymru: Datblygu Ymateb Rhanbarthol i Argyfwng yr Hinsawdd.




Cyflwynwyd yr adroddiad i NWRLB yn Nhachwedd 2020 ac roedd yn gwneud argymhellion i geisio symud rhanbarth Gogledd Cymru tuag at ddull trawsnewidiol o ddelio ag argyfwng yr hinsawdd. Roedd yn nodi tri maes blaenoriaethol lle gellid datblygu waith rhanbarthol ar y cyd. Byddai gweithio ar y cyd yn y meysydd hyn yn gallu gwella'r dulliau presennol a mynd i'r afael â bylchau sy'n annhebygol o gael eu trin gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu gyrff cyhoeddus unigol:


- Blaenoriaeth 1 – sector cyhoeddus carbon-niwtral 2030
- Blaenoriaeth 2 – tir ac allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Blaenoriaeth 3 – Risg i'r Hinsawdd ac Addasu

Roedd yr NWRLB o blaid creu strwythurau arweinyddol rhanbarthol ar gyfer newid yn yr hinsawdd, er mwyn adeiladu ar y profiad cadarnhaol a'r hyn a ddysgwyd o bandemig Covid-19 ac er mwyn arwain y camau gweithredu wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau i ddarparu ymateb i argyfwng yr hinsawdd. Er bod oedi wedi bod yn y gwaith oherwydd effaith y pandemig, rhagwelir y bydd hyn yn cael bywyd newydd pan fydd asesiadau a chynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hadolygu yn ystod 2021/22.

**Cam Gweithredu: archwilio cyfleoedd i leihau pecynnau plastig ar nwyddau sy'n dod i mewn i'r Gwasanaeth**

Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Adran Gaffael Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu'r holl dendrau mawr felly mae'r holl dendrau â gwerth uwch yn cynnwys egwyddorion gwerth cymdeithasol a chaffael cynaliadwy yn unol â gofynion tendrau Heddlu Gogledd Cymru.

Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd ymarferiad caffael ar y cyd (rhwng Heddlu Gogledd Cymru a GTAGC) i brynu esgidiau. Roedd rhaid i bob cyflenwr a oedd yn cyflwyno cynnig ateb cwestiynau am becynnau plastig untro a beth roeddent yn ei wneud i leihau neu ddileu hyn o'r gadwyn gyflenwi. Bydd y cwestiwn yma'n cael ei gynnwys erbyn hyn ymhob fframwaith sydd gan GTAGC a Heddlu Gogledd Cymru ar y cyd ar gyfer cyflenwi nwyddau.



Mae'r Gwasanaeth yn ceisio cael nwyddau ailgylchadwy, er enghraifft prynu pensiliau pren mewn tiwbiau cardfwrdd i'w defnyddio gan staff diogelwch cymunedol wrth gyflwyno sesiynau ymyrryd ac ymgysylltu, yn ogystal â photeli chwistrell ail-lenwi a jel dwylo i ymateb i'r prinder byd-eang o boteli chwistrellu. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cadw'r rhain yn y dyfodol fel ffordd o leihau gwastraff plastig.

Yn ystod y pandemig, cyflwynodd y Gwasanaeth archwiliadau diogel ac iach dros y ffôn i gartrefi â risg isel neu ganolig a allai osod eu larymau mwg eu hunain. Rhoddwyd cyngor am ddiogelwch i'r preswylydd dros y ffôn ac yna postiwyd y larwm mwg atynt. Roedd y pecynnau ar gyfer cludo'r larwm yn cael ei ddewis yn ofalus i sicrhau bod modd ei ailgylchu er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Hefyd, roedd y defnydd o ynni gan gerbydau GTAGC wedi lleihau oherwydd y dull newydd o gynnal archwiliadau, ac arweiniodd hynny at ei fanteision amgylcheddol ei hun.

**Cam Gweithredu: canfod ffyrdd o ddefnyddio cyflenwadau dŵr mor gyfrifol â phosibl**

Gosodwyd systemau defnyddio dŵr glaw yng ngorsafoedd tân Nefyn a Thywyn fel rhan o waith adeiladu newydd (yn 2014 a 2015 yn eu trefn). Defnyddir y dŵr glaw o'r system i gyflenwi dŵr anyfadwy yn y ddwy orsaf i helpu i leihau'r galw ar y prif gyflenwadau dŵr.

Mae holl adeiladau'r Gwasanaeth wedi cael eu hasesu o ran eu hygyrchedd yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r wrinalau wedi cael eu tynnu o'r rhan fwyaf o'r safleoedd a thoiledau fflysh isel wedi cael eu gosod yn eu lle, ac mae tapiau taro hefyd wedi cael eu gosod mewn ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid.

Mae'r mesurau cyfunol hyn wedi arwain at ostyngiad yn y galw am ddŵr o'r prif gyflenwad yn y safleoedd dan sylw gan nad yw wrinalau'n fflysio'n rheolaidd (ni waeth beth yw lefel y feddiannaeth yn yr adeilad) ac nid yw tapiau'n cael ei gadael i redeg heb eisiau.

**Cam Gweithredu: gweithio gyda phartneriaid allanol fel Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i archwilio cyfleoedd i leihau'r defnydd o ynni a thanwydd**

Yn ystod 2020/21, cymerodd yr Awdurdod ran yn y cyfnod o brofi Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net i helpu i ddatblygu canllaw adrodd ar gyfer cyrff cyhoeddus. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y gwaith o brofi'r dogfennau drafft yn gam hanfodol o'r gwaith o ddatblygu'r ddogfen gyfarwyddyd derfynol ar gyfer:

- Sicrhau bod y canllaw a luniwyd yn hygyrch, defnyddiol a gweithredol yn unol â'i bwrpas arfaethedig.
- Ymgysylltu â defnyddwyr y canllaw a chasglu adborth ar gyfer gwella

Yn dilyn y cyfnod profi, defnyddiwyd y data a'r adborth i greu patrwm ar gyfer y canllaw terfynol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021 oherwydd yr oedi yn sgil y pandemig.

Yn ystod 2020/21, archebodd y Gwasanaeth gerbydau newydd a mwy effeithlon o ran tanwydd. Roedd y dewis o gerbydau yn seiliedig ar gost, perfformiad ac effeithlonrwydd. Bydd mwy o effeithlonrwydd o ran ynni yn arwain at lai o allyriadau o injanau a llai o lygryddion niweidiol yn cael eu rhyddhau i'r atmosffer. At hyn, bu'r Gwasanaeth yn monitro ac yn parhau i werthuso effeithiau'r cerbydau gwbl drydanol a hybrid gyda'r posibilrwydd o ychwanegu mwy ohonynt at y fflyd cerbydau ysgafn.

Yn 2020/2021, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sicrhau 35.4% o ostyngiad yn ei ôl-troed carbon cyffredinol ac wedi lleihau'r defnydd o'r prif gyflenwad trydan mewn adeiladau a depotau am y seithfed flwyddyn yn olynol. Roedd y milltiroedd busnes cyffredinol wedi gostwng 52.6% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y gostyngiadau yn y defnydd o ynni, teithio, gwastraff a dŵr yn fwy oherwydd yr addasiadau gweithredol a gyflwynwyd yn sgil y pandemig. Bydd y Gwasanaeth yn edrych ar yr enghreifftiau hyn o arferion da i helpu i siapio ei strategaeth amgylcheddol.

### Cam Gweithredu: chwilio am gyfleoedd i leihau faint o wastraff y mae'r Awdurdod yn ei anfon i dirlenwi

Mae'r Gwasanaeth yn mynd ati'n gyson i geisio ailddefnyddio ac ail-bwrpasu eitemau yn lle eu taflu i ffwrdd. Yn ystod haf 2020, trefnodd y Gwasanaeth i roi hen gyfarpar i gynorthwyo prosiectau gwasanaethau brys yn Ynysoedd y Philippines fel rhan o 'Operation Florian', sef elusen ddyngarol y Gwasanaethau Brys yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd yn 1995 ar gyfer diogelu bywydau ymysg cymunedau ledled y byd.

Mae blychau danfon a dderbynir gan y Gwasanaeth yn cael eu hailddefnyddio i gludo nwyddau i orsafoedd a swyddfeydd ledled y rhanbarth. Caiff hangeri cotiau metal a ddarperir gan y cwmni sych-lanhau lifrai eu dychwelyd i'w hailddefnyddio, ac ailgylchir y cardfwrdd a ddefnyddir ganddynt i siapio siacedi. Mae cyfarpar amddiffyn personol na ellir ei ailbwrpasu yn cael ei anfon i gynwysyddion ailgylchu ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn. Caiff lifrai fel crysau-t, trowseri a menig diffoddwyr tân eu hailbwrpasu i'w defnyddio gan y rhai sy'n mynd i ganolfan hyfforddi'r Gwasanaeth yn Nolgellau, ac fel lifrai wrth gefn os bydd eu hangen. Caiff blychau cardfwrdd a chetris peiriannau argraffu a ddosberthir i safleoedd y Gwasanaeth eu hailgylchu ar ôl eu defnyddio. Drwy gadw'r pecynnau gwreiddiol, gall unigolion ddychwelyd y cetris i safle canolog, a threfnir i'w casglu am ddim yn fisol.

### Cam Gweithredu: canfod ffyrdd o gynyddu bioamrywiaeth ar safleoedd

Parhaodd yr Awdurdod i fynd ynglŷn â'i gynllun gweithredu bioamrywiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Roedd contract wedi dechrau ym mis Mai, i sicrhau gwaith cynnal a chadw tiroedd a gwella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O ganlyniad i hynny, dechreuodd gwaith cynnal a chadw tiroedd ar bob safle, gan barhau drwy gydol y flwyddyn.

## Amcan 7: sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.



Gwerth cymdeithasol yw'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. Yn ystod 2020/21, parhaodd yr Awdurdod i ddatblygu ei werth cymdeithasol a sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan o'i weithgareddau, gan gynnwys cefnogaeth i Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc a Phrosiect y Ffenics.

## Cam Gweithredu: parhau i geisio cyfleoedd i ychwanegu gwerth cymdeithasol at gymunedau



Parhaodd y Gwasanaeth i ganolbwyntio ar ostwng nifer yr achosion o losgi bwriadol fel rhan o'i ymgyrch tuag at sicrhau gwerth cymdeithasol yn 2020/21. Cafodd FACE (*Fire Awareness Child Education*) ei ddylunio i helpu i atal plant rhwng 3-11 oed sydd wedi datblygu'r arferion gwael o gynnau tanau'n fwriadol. Mae amryw o resymau dros hyn, gan gynnwys fel ffordd o fynegi eu trallod emosiynol a'u dicter, a chaiff yr addysg ei chyflwyno drwy raglen strwythuredig gyda chefnogaeth rhiant/gwarcheidwad y plentyn.

Mae'r Ymyriad 'FireSafe' yn rhaglen ymddygiadol wybyddol ar gyfer pobl ifanc 12-17 sy'n adnabyddus am gynnau tanau. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar feddwl yn ganlyniadol ac ymwybyddiaeth o'r dioddefwr. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn darparu rhaglen ymyrraeth i oedolion, gan atgyfnerthu canlyniadau tanau bwriadol a'r effeithiau o ran y gost i wasanaethau brys.

Bu'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos ag ysgolion ac asiantaethau eraill i benderfynu ar ddulliau cyflwyno eraill i brosiect y Ffenics, gan symud dros dro at gyflwyno'n rhithiol a chreu deunyddiau wedi'u recordio i'w defnyddio dan arweiniad. Oherwydd bod rhaid addasu mewn cyfnod pryd roedd pobl ifanc wedi'u cyfyngu mewn llawer o ffyrdd, llwyddodd y Gwasanaeth i gynnal a chreu perthynas a galluogi mwy nag 800 o bobl ifanc i ddefnyddio adnoddau addysgu ac ymwybyddiaeth Prosiect y Ffenics. Llwyddwyd i wneud hyn pan roedd y rhan fwyaf wedi'u hatal rhag mynd i'r ysgol neu gymdeithasu yn y ffordd arferol, tra roedd angen iddynt ddefnyddio eu hamser yn adeiladol.

I ymateb i COVID-19, bu swyddogion yn gweithio ar gynllunio a pharatoi ysbytai maes newydd mewn partneriaeth â chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod cyfleusterau newydd mor ddiogel â phosibl. Bu'r swyddogion yn darparu arbenigedd ac yn gwneud yn siŵr fod diogelwch tân yn cael ei ystyried wrth adeiladau'r ysbytai maes.

Bu staff y Gwasanaeth yn rhoi cymorth i Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn ystod adegau gwaethaf y pandemig i helpu i ddelio â'r pwysau aruthrol a wynebid. Roedd y cymorth hwnnw'n ymwneud yn arbennig â gyrru ambiwlansys a chefnogi staff y Gwasanaeth Ambiwlans.

GIG CYMRU NHS WALES Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Welsh Ambulance Services NHS Trust



I gefnogi'r cydnerthedd yng Ngogledd Cymru yn ystod y pandemig, aeth staff y Gwasanaeth ati i ail-bwrpasu'r uned ddihalogi torfol a'i symud i Ysbyty Gwynedd i'w defnyddio fel ardal brysbennu. Cynhaliwyd ymarferion hyfforddi gyda'r cyfleuster ym mis Ebrill, a gwnaethpwyd paratoadau tebyg ar safleoedd yr holl brif ysbytai.

**Cam Gweithredu: datblygu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy**

Er bod y cynnydd tuag at gytuno ar Strategaeth Gwerth Cyhoeddus a Chaffael Cynaliadwy i'r Awdurdod wedi profi oedi oherwydd yr heriau a ddaeth gan y pandemig, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd datblygu strategaeth caffael cynaliadwy a moesegol. Er gwaethaf y cynnydd cyfyngedig, roedd cynaliadwyedd yn dal yn chwarae rhan allweddol mewn penderfyniadau ynglŷn â chaffael a phrynu, fel y gwelid yn yr amcan hwn ac amcan chwech.

Fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer ychwanegu cerbydau sy'n fwy effeithlon o ran tanwydd i'r fflyd, mae unrhyw broses dendro'n mynd ati fel mater o drefn i ystyried y budd o gael cyflenwyr lleol sy'n cyflawni gofynion y Gwasanaeth.

**Cam Gweithredu: archwilio opsiynau i gaffael yn lleol drwy gydweithio'n genedlaethol/rhanbarthol, a hynny o fewn y sector tân ac achub ac ar draws asiantaethau goleuadau glas eraill**

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru wrth brynu offer fel larymau mwg, cerbydau a chyfarpar amddiffyn personol.



Cafodd y cit tân newydd ar gyfer Cymru gyfan ei gyflwyno yn 2020, ac yn dilyn profion helaeth a thrylwyr o wahanol gitiau gan nifer o gyflenwyr, dewiswyd cit tân model Xenon o Gyfarpar Amddiffyn Personol oherwydd ei ddyluniad ysgafn. Mae'r cit tân yn darparu'r lefel uchaf o amddiffyniad, i geisio lleihau'r risg o straen gwres gan leihau'r baich ffisiolegol ar y sawl sy'n ei wisgo. Mae hyn wedi rhoi lefelau uwch o gyfforddusrwydd i ddiffoddwyr tân y Gwasanaeth, ynghyd ag anadladwyedd a'r rhyddid i symud, ac mae'n sychu'n gyflym ac yn darparu amddiffyniad thermol gwych ac yn gallu gwrthsefyll dŵr.

Cyflwynwyd fideos hyfforddi sgiliau craidd offer anadlu i helpu i barhau i ddatblygu diffoddwyr tân ar draws Gogledd Cymru.

Hefyd, mae'r Gwasanaeth yn cynnal prosesau tendro ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru am wasanaethau cyngor cyfreithiol a chyfreithwyr cyfraith cyflogaeth.

**Cam Gweithredu: sicrhau bod fframweithiau caffael a chontractau yn mesur gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn ystod prosesau tendro**

Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth Gytundeb Lefel Gwasanaeth ag adran gaffael Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu'r holl dendrau mawr felly mae'r holl dendrau â gwerth uwch yn cynnwys egwyddorion gwerth cymdeithasol a chaffael cynaliadwy yn unol â gofynion tendro'r Heddlu.

Caiff y rhan fwyaf o eitemau eu caffael drwy fframweithiau, dyfynbrisiau gan gyflenwyr sefydledig a moesegol a manwerthwyr lleol. Mae'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd, dibynadwyedd a gwerth am arian wrth gaffael eitemau. Un enghraifft o gaffael o'r fath yw'r deunydd glanhau arwynebau gwrthfacterol a deunydd glanhau gwydr sydd wedi'u dilysu gan 'Vegan Action'.

### Cam Gweithredu: datblygu rhagor o gyfleoedd datblygu i weithio gyda 'Fire Aid' i sicrhau bod offer yn cael ei ailgylchu pan fo modd



Yn ystod yr haf, trefnodd y Gwasanaeth i roi hen offer i brosiectau gwasanaethau brys yn Ynysoedd y Philippines, fel rhan o Operation Florian. Rhoddwyd offer yn cynnwys gwisgoedd nwy tynn (a ddefnyddir i ddiogelu ymatebwyr brys rhag cemegau peryglus a gwenwynig), bagiau aer â phwysedd uchel (a ddefnyddir i achub o fannau bach ar ôl i adeilad gwympo), Cyfarpar Amddiffyn Personol ac offer achub.

### Cam Gweithredu: datblygu pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth ar gyfer caffael

Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddwyn ynghyd enghreifftiau o arferion da o ran caffael cynnyrch cynaliadwy ac ailddefnyddio offer er mwyn dangos arferion da o ran caffael nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy. Defnyddir hyn i ddatblygu pecyn hyfforddi i adrannau ar gyfer prynu nwyddau a chyflenwadau.

## MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG

### Beth mae'r Mesur yn mynnu bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei wneud

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg yng Nghymru, a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn nyn, nid oes angen i'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, ond rhaid iddo gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg.

Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi eu Hysbysiadau Cydymffurfiaeth i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa Safonau (o blith y rhai a restrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 erbyn 30 Medi 2021 ac i roi cyhoeddusrwydd priodol i hyn.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, gael eu trin yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog y cymunedau, ynghyd â threftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd tuag at ei staff. Mae llawer ohonynt yn byw yng Ngogledd Cymru, ac maent eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau. Drwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, ac i gwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

**Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld drwy'r ddolen isod;**
https://www.northwalesfire.gov.wales/media/337604/cynllun-gweithredu-safonaur-gymraeg-gtagc.pdf

Yn ystod 2020/21, parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn ei Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2016. Mae hefyd yn parhau i weithio ar y cyd â'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru ac i rannu gwybodaeth ac arferion da fel rhan o'r Grŵp Iaith Cymru gyfan.

**Safon 147: Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg:**
Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2021, roedd 705 o weithwyr (83%) yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (Lefel 1 ac uwch), roedd 326 o'r rheini (38%) yn siaradwyr rhugl (Lefel 4 a 5).

**Safon 148: Nifer yr aelodau o'r staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion, cynefino, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch):**
Eleni, ni ddarparwyd dim o'r hyfforddiant sydd wedi'i nodi yn Safonau Gweithredol Rhif 125. Petai unrhyw un o'r hyfforddiant a nodir yn y Safon hon wedi'u darparu, byddai wedi cael ei hwyluso yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Safon 151: Nifer y swyddi newydd a gwag a gategoreiddiwyd fel rhai sy'n gofyn bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, dymunol, nid yn angenrheidiol neu angen eu dysgu:**
Mae pob swydd yn gofyn am ryw lefel o Gymraeg, a'r gofyniad isaf yw siarad a gwrando ar Lefel 2. Yn ystod y cyfnod hwn, hysbysebwyd 19 o swyddi newydd a gwag, categoreiddiwyd 7 ohonynt fel rhai â'r Gymraeg yn hanfodol (Lefel 4) a 12 â'r Gymraeg yn ddymunol (Lefel 2).
Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 23 o Ddiffoddwyr Tân y System RDS (Ar-Alwad) eu recriwtio, yn ogystal â 15 o Ddiffoddwyr Tân y System Amser Cyflawn (WDS) – rhaid i bob diffoddwr tân a gyflogir

o'r newydd fod yn cyrraedd o leiaf Lefel 2 yn Gymraeg, naill ai pan mae'n dechrau neu o fewn ei gyfnod prawf.

**Safon 143: Nifer y cwynion a ddaw i'r sefydliad ynglŷn â phob categori o safonau:**
Caiff cwynion eu monitro a'u trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth. Caiff cwynion a llythyrau o werthfawrogiad eu hadrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân ac Achub. Ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y Gymraeg yn 2020/21. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefn gwynion ar ei wefan ac mae ganddo hefyd bolisi mewnol ynglŷn â sut i fynegi pryder neu gŵyn.

**Hyrwyddo'r Gymraeg:**
Caiff y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ei wneud yn fewnol drwy amryw o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys drwy Gynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg; Colofn Gymraeg reolaidd yn y cylchgrawn mewnol 'Y Fflam'; ym mwletinau wythnosol y staff; ymgyrch Cymraeg ar ddydd Mercher; a thrwy Workplace Facebook sydd ag is-grwpiau i Ddysgwyr a Hyrwyddwyr y Gymraeg. Hefyd, ceir gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn' / Ymrwymiad i'r Iaith Gymraeg' ond oherwydd y cyfyngiadau presennol, gohiriwyd y Seremoni Wobrwyo yn 2020.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn canfod dewis iaith darpar weithwyr yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf, ac mae'n cofnodi'r wybodaeth honno ar gyfer y dyfodol. Mae'n cadw cofnod o'r holl aelodau o staff sydd wedi gofyn am ohebiaeth Gymraeg a gellir adolygu hyn unrhyw bryd. Mae'r holl bolisïau Adnoddau Dynol a ffurflenni'n ymwneud â chyflogaeth unigolyn wedi'u cyfieithu ac maent yn cael eu cyhoeddi'n fewnol. Caiff gweithdrefnau disgyblu a chwynion eu hwyluso drwy gyfrwng y Gymraeg os gwneir cais, a rhoddir parch bob amser i'r iaith a ddewisir gan yr unigolyn.

Rhoddir cyfarwyddyd i'r gweithwyr am bwysigrwydd cynnig dewis iaith i bawb, boed wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ni waeth ble maent, beth yw eu hacen, ethnigrwydd ac ati. Ail-bwysleisir y neges hon yn ystod y Modiwl Ymwybyddiaeth Iaith gorfodol a luniwyd i'r gweithwyr, yn ystod sesiynau wyneb yn wyneb i ddechreuwyr newydd ac yn ystod y cwrs hyfforddi cychwynnol i ddiffoddwyr tân. Mae canllawiau ar gael hefyd ynglŷn â gohebu â'r cyhoedd, ac mae pob llofnod e-bost a phapur pennawd yn cynnwys datganiad sy'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Hefyd, ymgorfforwyd logos 'Siarad Cymraeg' a 'Dysgu Cymraeg' yn y llofnodion e-bost safonol.

Caiff polisïau newydd a diwygiedig eu cyhoeddi'n fewnol yn Gymraeg ac yn Saesneg, a rhaid i bob polisi gael ei gysylltu ag asesiad effaith integredig i ganfod ei effaith ar y Gymraeg ac i hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi effaith negyddol. Fel gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg o'r blaen, mae'r gwaith yn parhau i gynnig dewis iaith yn rhagweithiol i holl ddefnyddwyr y gwasanaethau a gwelwyd bob amser fod hyn yn fuddiol ac yn ffordd o ymgysylltu'n well â phob aelod o'r gymuned. Mae pob deunydd cyhoeddusrwydd, posteri a thaflenni yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf bob amser.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth a budd cynnig dewis iaith felly mae wedi parhau i weithredu Ystafell Reoli / Canolfan Gyfathrebu ar y Cyd sy'n gwbl ddwyieithog er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo, yn ychwanegol at ei gyfrifoldeb statudol, ddyletswydd foesol a moesegol i ddelio'n effeithiol â phobl pan fyddant mewn sefyllfa o argyfwng felly mae'n mynd y tu hwnt i'r Safonau er mwyn delio'n effeithiol yn newis iaith y sawl sy'n galw.

Mae gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwbl ddwyieithog, ac mae hyn yn cynnwys y nodwedd hygyrchedd ReciteMe sy'n galluogi defnyddwyr i wrando ar gynnwys y wefan yn Gymraeg. Caiff ymholiadau drwy'r wefan eu delio yn iaith y sawl sy'n gwneud yr ymholiad.

Mae'r Adran Hyfforddi a Datblygu yn cadw cofnod o'r holl gyrsiau Cymraeg a fynychir a'r asesiadau a wneir gan y gweithwyr, ac mae'n cofnodi'r canlyniadau yn ei system gofnodi fewnol. Mae'r Adran hefyd yn hwyluso cyrsiau Cymraeg mewnol gan Goleg Cambria, a chaiff aelodau'r staff eu hannog i ofyn am gyrsiau yn ystod eu gwerthusiadau blynyddol.

Dysgu o bell fu'r arfer dros y flwyddyn ddiwethaf, a sefydlwyd cynllun peilot i dreialu'r cwrs arloesol 'Say Something in Welsh' gyda 12 aelod o staff. Hefyd, cafodd dechreuwyr newydd gyfle i fynychu sesiynau Cyflwyniad i'r Gymraeg gan Goleg Cambria, yn rhithiol eto eleni, er mwyn rhoi cip ar gynnwys y cyrsiau hunan-ddysgu Lefel 1-3 a ddarperir gan y Gwasanaeth. Y nod yn y pen draw yw darparu amrywiaeth o ddulliau dysgu sy'n addas i anghenion gwahanol ddysgwyr, yn ogystal â darparu cyrsiau wyneb yn wyneb pan gaiff cyfyngiadau presennol y coronafeirws eu codi.

Mae cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg yn bodoli, sef pan fo aelodau Cymraeg o'r staff yn gwirfoddoli i gefnogi cydweithwyr i wella eu sgiliau Cymraeg. Yn ystod 2020/21, parhaodd yr Hyrwyddwyr i gefnogi'r staff er bod y rhan helaethaf ohonynt yn gweithio o gartref. Trefnwyd cyfarfodydd a sesiynau sgwrsio dros Zoom a Skype i barhau i fentora'r staff. Er mwyn datblygu sgiliau Hyrwyddwyr y Gymraeg, trefnwyd sesiwn ar-lein i ddelio â newid agweddau a'r rhwystrau sy'n wynebu siaradwyr Cymraeg i geisio newid ymddygiad. Cafodd y sesiwn ei goruchwylio gan y seicolegydd Dr Nia Williams, a roddodd sylwadau yn ystod yr hanner diwrnod am egwyddor economeg NUDGE i wella'r defnydd o'r Gymraeg ac i newid ymddygiad yn y gweithle.

Cynhaliwyd Cwis blynyddol ar Ddydd Gŵyl Ddewi i godi ymwybyddiaeth am yr ymrwymiad tuag at yr iaith – cafodd hwn dderbyniad da, ac roedd yr enillydd wedi derbyn te prynhawn i ddau gan gwmni lleol, wedi'i ddanfon at garreg y drws.

Eleni, mae'r Awdurdod wedi mynd ati i geisio hyrwyddo'r Gwasanaeth fel sefydliad dwyieithog drwy hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ar Twitter gan ddefnyddio'r hashnod #yagym fel rhan o fenter 'Yr Awr Gymraeg'. Ac yn ystod ymgyrchoedd recriwtio, cafodd siaradwyr Cymraeg eu targedu ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy wefannau recriwtio Cymraeg. Mae'r Grŵp Adnoddau Gweithredol, sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith recriwtio diffoddwyr tân, yn parhau i fonitro'r prosesau recriwtio i wneud yn siŵr fod y Gymraeg yn cael ei chynnwys ymhob agwedd ar y gwaith. Eleni, mae'r Grŵp wedi cymeradwyo cyfarwyddyd recriwtio i swyddi 'Cymraeg yn ddymunol' a 'Chymraeg yn hanfodol', gan gynnwys yr arferion gorau ar gyfer hysbysebu swyddi, cyfweld a phenodi.

Yn ystod wythnos y fenter 'Mae gen i hawl' gan Gomisiynydd y Gymraeg, tynnwyd sylw at hawliau defnyddwyr gwasanaethau i gysylltu â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Gymraeg. Hefyd, cymerodd y Gwasanaeth ran yn y 'Diwrnod Su'mae Shwmae' drwy newid llun proffil Facebook a Twitter am y diwrnod a thrwy ddangos fideo i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a rhannu adnoddau'n fewnol. Hefyd, trefnwyd sesiynau rhithiol 'Paned a Sgwrs'.

Mae'r Awdurdod yn gwbl ymwybodol ei fod yn dibynnu ar gefnogaeth ei staff i hyrwyddo a ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, felly eleni comisiynwyd cwrs Academi Iaith i'r staff drwy Gwmni Iaith Cyf. Cafodd y cwrs ei deilwra i anghenion y sefydliad yn y gobaith y gallai'r mynychwyr fynd ati wedyn i ddefnyddio'r sgiliau yn y gweithle er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â chefnogi siaradwyr Cymraeg. Cynhaliwyd y cwrs dros Zoom ac roedd yn cynnwys saith modiwl dros saith hanner diwrnod.

Roedd y cwrs yn edrych ar newid agweddau at y Gymraeg, codi ymwybyddiaeth o dechnolegau iaith, datblygu'n siaradwyr cyhoeddus hyderus, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg.

Caiff yr Awdurdod ei gynrychioli ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, ac fel rhan o waith y Bwrdd mae'n cymryd rhan mewn prosiect i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn derbynfeydd. Oherwydd y sefyllfa bresennol, gohiriwyd y gwaith yn ystod 2020/21 ond fe fydd yn ailddechrau yn 2021 er mwyn ystyried y newidiadau technolegol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Nod y prosiect yw defnyddio'r derbynfeydd yn y gwasanaethau cyhoeddus sy'n aelodau o'r Bwrdd i annog unigolion i siarad Cymraeg wyneb yn wyneb, naill ai dros y ffôn neu'n ddigidol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o ymwneud â'i gymunedau i dynnu sylw at y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ac i bwysleisio bod y Gymraeg yn sgil werthfawr yn y gweithle.

# CYNNYDD TUAG AT YR AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL



**Beth mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn mynnu bod yr Awdurdod yn ysgrifennu cynllun cydraddoldeb bob pedair blynedd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2020/2024 yn nodi chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod eisiau eu cyflawni er mwyn sicrhau bod Cymru yn wlad decach i fyw ynddi. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bawb yr hawl i'r canlynol:

- cael ei drin yn deg;
- cael yr un cyfleoedd ag eraill;
- bod yn rhydd o gamwahaniaethu.

Mae categorïau'r amcanion yn seiliedig ar y penawdau meysydd yn y ddogfen "Pa mor Deg yw Cymru" a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r penawdau hyn yn cyd-fynd hefyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru; mae hyn yn golygu bod modd cynnwys cydamcanion yng nghynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadau unigol yn y sector cyhoeddus.

Ar ôl nodi'r amcanion hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw ac i adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd a wnaed ganddo. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion y mae'n rhaid eu hystyried wrth bennu'r camau i'w cymryd. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig':

- Ailbennu Rhywedd;
- Anabledd;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Crefydd neu gred/dim cred;
- Cyfeiriadedd Rhywiol;
- Hil;
- Oedran;
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Rhyw.

Datblygwyd nifer o ffynonellau i ddatblygu amcanion cydraddoldeb strategol yr Awdurdod:

- asesiadau effaith cydraddoldeb;
- amcanion cynllunio cyfunol ar gyfer gwelliannau a lleihau risgiau;
- cynlluniau busnes gan benaethiaid adrannau;
- strategaethau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes;
- canlyniad gweithgareddau ymgysylltu.

Mae deddfwriaeth yn galluogi amcanion i gael eu newid unrhyw bryd, felly gwneir gwaith ymgysylltu parhaus i sicrhau bod yr amcanion yn dal yn gyfredol. Mae'r Awdurdod yn mynd ati'n barhaus i archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu drwy gysylltiadau sy'n bodoli eisoes â grwpiau cymunedol a sefydliadau, ac mae'n ymdrechu i sefydlu perthnasoedd gyda grwpiau newydd a chymunedau lleol. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun yn 2020/2021 erbyn 31 Mawrth 2022.

**Amcan Cydraddoldeb 1 – Bywyd ac Iechyd**
Gostwng nifer y tanau mewn cartrefi a'r anafusion sy'n gysylltiedig â'r rheini, a hynny drwy strategaeth gynhwysfawr sy'n mynd ati'n benodol i dargedu pobl y gellir dangos eu bod â risg uwch oherwydd eu nodweddion gwarchodedig a/neu amgylchiadau.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud y canlynol:**

- gweithio gydag asiantaethau partneriaethol perthnasol sydd â mynediad at unigolion a theuluoedd sydd â risg uchel ac sy'n gallu cyfeirio at y mwyaf â risg mewn cymdeithas at GTAGC i gael Archwiliad Diogel ac Iach er mwyn gallu eu blaenoriaethu. Mae COVID-19 wedi creu heriau i GTAGC, gan gynnwys gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill. Mae rhaglen ar gyfer ail-ymgysylltu â'r holl asiantaethau partneriaethol ar y gweill.

- parhau i ymgysylltu â'r gymuned fusnes drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfleuster dewis iaith ar wefan GTAGC.

- cynllunio ymgyrchoedd a digwyddiadau wedi'u targedu drwy gydol y flwyddyn drwy Grŵp Llywio Ymgyrchoedd y Gwasanaeth. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn dod â'r Gwasanaeth i gysylltiad â grwpiau a dargedir drwy amrywiaeth eang o weithgareddau wedi'u cynllunio, o weithgareddau wyneb yn wyneb i'r cyfryngau print ac electronig. Mae'r ymgyrchoedd yn ceisio cynnwys y rhai sydd â'r mwyaf o risg o dân, a'r rhai sydd â chyfrifoldebau i gysylltu â nhw neu ofalu amdanynt.

**Amcan Cydraddoldeb 2 – Cyflogaeth**
Drwy arferion cyflogaeth y Gwasanaeth ei hun, mae rhaglenni a chynlluniau'n cynyddu'r siawns o gyflogaeth i bobl a allai fel arall ei chael yn anodd cael mynediad at fyd gwaith.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud y canlynol:**

- dod â digwyddiadau gweithredu cadarnhaol wyneb yn wyneb i stop am y tro yn ystod COVID-19. Cynhaliwyd diwrnodau/digwyddiadau recriwtio rhithiol, sydd wedi cynnwys gweithredu cadarnhaol.

- hysbysebu pob swydd sy'n cynnig gweithio ystwyth er mwyn sicrhau eu bod yn denu ymgeiswyr o gronfa ehangach, a chynyddu amrywiaeth yn y gweithlu.

- creu fideo dwyieithog byr yn amlinellu'r gyrfaoedd a'r swyddi yn y Gwasanaeth. Defnyddir y fideo yn ystod prosesau recriwtio ar-lein ac mewn ffeiriau recriwtio rhithiol i hyrwyddo'r gwahanol ddewisiadau gyrfa sydd ar gael yn y Gwasanaeth.

- profi anhawster wrth ymgysylltu â cholegau lleol, a mynychu digwyddiadau recriwtio oherwydd y cyfnod clo a chyfyngiadau COVID-19. Mae'n debygol y bydd unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn rhithiol.

- rhoi trefn ar ffyrdd eraill o gynnal cyfweliadau ac asesiadau ar-lein drwy ddefnyddio Skype a WebEx. Defnyddiwyd fideo-gynadledda a digwyddiadau Facebook i ymgysylltu â darpar ymgeiswyr, ac i helpu gyda gweithredu cadarnhaol.

- monitro'r data cydraddoldeb a gaiff eu casglu fel rhan o brosesau recriwtio. Mae'r data'n gymorth i gynghori a chyfarwyddo gweithgareddau ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol os gwelir tueddiadau.

- llunio Adroddiad Monitro Cyflogaeth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2021. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr holl ddata cyflogaeth wedi'u dadansoddi yn ôl anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, oedran a rhyw ac wedi'u hadrodd yn ôl y math o gontract - parhaol, cyfnod sefydlog, rhan amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill. Mae'r adroddiad yn gymorth i ganfod tan-gynrychiolaeth ymysg y staff, ac mae'n ffurfio'r sail ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth.

- cynnal y dadansoddiad a'r cynllun gweithredu ar gyfer y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, ond oherwydd pandemig COVID-19 roedd y Llywodraeth wedi gohirio'r gorfodiad o ran y dyddiad cau ar gyfer adrodd ynghylch y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn 2020.

- cefnogi rhaglen lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc na fyddai fel arall wedi cymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Caiff y rhaglen ei darparu mewn partneriaeth â darparwr addysg. Mae GTAGC wedi gweld pobl ifanc yn mynd ymlaen at raglenni prentisiaethau, ac yn canfod cyflogaeth lawn amser mewn amryw o feysydd gwahanol.

- creu dau becyn dysgu electronig ar gyfer cydraddoldeb. Mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at System Rheoli Dysgu'r Gwasanaeth. Mae'r pecynnau'n cynnwys elfennau aml-gyfryngol rhyngweithiol, ac yn delio'n benodol ag "ymddygiad amhriodol heriol" a "chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant".

- cysoni gwerthoedd craidd y sefydliad â'r prosesau dethol a datblygu. Mae senarios y ganolfan asesu'n cynnwys mesur ymddygiadau sy'n cyd-fynd â chydraddoldeb, amrywiaeth ac uniondeb, drwy chwarae rôl un-i-un ac fel grŵp.

- trefnu diwrnodau coetsio a mentora ar gyfer SDH a Swyddogion Cymorth Gorsafoedd.

- adolygu'r Asesiadau Effaith Integredig Profion Technegol a Chanolfannau Asesu a Datblygu ar gyfer Rheolwyr Goruchwyliol a Chanol. Mae proses ddrafft ar gyfer paneli dyrchafiadau wrthi'n cael ei datblygu, a chrëwyd asesiad effaith integredig ddiwygiedig.

**Amcan Cydraddoldeb 3 – Addysg**
Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'i deilwra a ddarparwyd yn unigol ac mewn cydweithrediad, er mwyn grymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i ostwng eu lefel eu hunain o risg rhag tân a pheryglon eraill drwy gydol y gwahanol gyfnodau o'u bywydau.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud y canlynol:**

- datblygu rhaglen reolaidd o ymgysylltu ag ysgolion a cholegau mewn cymunedau penodol. Caiff y rhaglen hon ei chyflwyno gan Addysgwyr y Gwasanaeth, ond daeth y gweithgareddau i ben eleni oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Dros y 12 mis diwethaf rhoddwyd y cyflwyniadau i ysgolion yn rhithiol.

- sicrhau bod pob landlord preswyl yn ymwybodol o'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth am wagio adeiladau, ac yn benodol Cynllun PEEP (*Personal Emergency Evacuation Plan*). Caiff y cynlluniau hyn eu darparu ar gyfer unigolion sydd â mwy o risg o dân oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

- Grŵp Llywio Ymgyrchoedd, sy'n cwrdd yn rheolaidd ac sy'n cynnwys unigolion allweddol o drawstoriad o swyddogaethau'r GTA. Mae'r grŵp yn creu calendr o ddigwyddiadau ar gyfer ymgyrchoedd yn ymwneud â phethau sy'n achosi tân. Yn 2021, ychwanegwyd y categori 'digwyddiadau cynhwysiant, amrywiaeth, diwylliannol a chrefydd' at y calendar. Gosodwyd cyfres o

Daflenni Gwybodaeth am Gydraddoldeb ar y wefan er mwyn cynnig cyngor am ddigwyddiadau a gweithgareddau crefyddol a diwylliannol penodol.

- sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth yn ymdrin â diogelu a 'Gofyn a Gweithredu', ac mae hyn yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Mae'r staff wedi cael gwybod am y drefn atgyfeirio os bydd angen iddynt adrodd ynghylch mater diogelu.

- gorfod gostwng nifer yr ymweliadau diogelwch tân y mae'n eu cynnal gyda busnesau lleol oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Fodd bynnag, mae'r ymgysylltu wedi parhau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gyda nifer o archwiliadau o safleoedd wedi cael eu cynnal o bell.

**Amcan Cydraddoldeb 5 – Cyfranogi a Chyfathrebu**
Drwy fod yn agored ac atebol ynglŷn â'r hyn a wneir gan y Gwasanaeth a beth yw cynlluniau'r Gwasanaeth, rydym yn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar y ffordd y caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, ac yn ceisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud y canlynol:**

- dechrau defnyddio'r adnodd 'Recite Me' ar wefan y Gwasanaeth yn ddiweddar er mwyn cynyddu'r hygyrchedd, e.e. mwy o ieithoedd. Mae'r Gwasanaeth wedi cael ei adolygu'n ddiweddar o ran materion hygyrchedd yn unol â'r gofynion statudol, ac mae hyn wedi arwain at fabwysiadu mwy o welliannau o ran hygyrchedd.

- parhau i ymgysylltu â'r gymuned fusnes drwy'r cyfryngau cymdeithasol gan eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfleuster dewis iaith sydd ar gael ar wefan GTAGC.

- mynychu cyfarfodydd rheolaidd â Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, sy'n cwrdd bob dau fis dros Teams. Mae'r grŵp wedi nodi bod ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn un o'i hamcanion allweddol am y flwyddyn i ddod.

- trefnu Diwrnod Agored Rhithiol cyntaf y Gwasanaeth ar ddiwedd 2020 fel digwyddiad peilot. Bu'n llwyddiannus a chafodd dderbyniad da. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n trefnu digwyddiad yn y dyfodol i hybu'r gwaith o recriwtio diffoddwyr tân.

- mae llwybrau caffael cyhoeddus yn eu lle drwy Fframweithiau, yn ogystal â gwaith ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ledled Cymru sydd â staff caffael arbenigol sy'n sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hyrwyddo.

- addasu'r amserlenni gan fod dyddiad gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi cael ei ohirio oherwydd COVID-19. Bydd y Gwasanaeth yn ystyried y ddyletswydd mewn perthynas â phenderfyniadau strategol am y sefydliad, ac mae hyn bellach wedi'i ymgorffori yn y templed ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig y Gwasanaeth.

## CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD

Roedd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 yn cyflwyno tri dangosydd perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â dangosyddion a gasglwyd yn lleol am y sector.



| DANGOSYDDION STATUDOL: | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | Cyfradd | Nifer | Cyfradd |
| RRC/S/001i | Tanau yr aethpwyd atynt | 1,950 | 27.92 | 1,770 | 25.34 |
| RRC/S/001ii | Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,273 | 32.56 | 2,314 | 33.13 |
| RRC/S/001iii | Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 179 | 2.56 | 105 | 1.50 |
| RRC/S/001iiv | Argyfyngau eraill yr aethpwyd atynt | 469 | 6.72 | 509 | 7.29 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o boblogaeth | | | | | |
| RRC/S/002i | Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân | 50 | 7.16 | 47 | 6.73 |
| RRC/S/002ii | Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol | 46 | 6.59 | 45 | 6.44 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o boblogaeth | | | | | |
| RRC/S/002iii | Tanau mewn anheddau, a gyfyngwyd i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn | 339 | 88.51 | 339 | 87.6 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

| DANGOSYDDION Y SECTOR: | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | Cyfradd | Nifer | Cyfradd |
| SEC/FI/001i | Tanau bwriadol | 653 | 9.34 | 446 | 6.39 |
| SEC/FI/001ii | Tanau damweiniol (neu'r cymhelliad yn anhysbys) | 1,297 | 18.59 | 1324 | 18.96 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o boblogaeth | | | | | |
| SEC/IN/002i | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân | 4 | 0.72 | 5 | 0.72 |
| SEC/IN/002ii | Anafiadau a achoswyd gan danau | 44 | 6.44 | 42 | 6.01 |
| SEC/IN/002iii | Marwolaethau'n gysylltiedig â thanau damweiniol mewn anheddau | 4 | 0.57 | 4 | 0.57 |
| SEC/IN/002iv | Marwolaethau'n gysylltiedig â thanau bwriadol mewn anheddau | 0 | 0.00 | 0 | 0 |
| SEC/IN/002v | Anafiadau'n gysylltiedig â thanau damweiniol mewn anheddau | 29 | 4.30 | 31 | 4.44 |
| SEC/IN/002vi | Anafiadau'n gysylltiedig â thanau bwriadol mewn anheddau | 2 | 0.29 | 1 | 0.14 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o boblogaeth | | | | | |
| SEC/FI/001iii | Tanau damweiniol | 383 | 11.71 | 387 | 5.54 |
| SEC/FI/001iv | Tanau damweiniol mewn anheddau | 356 | 10.88 | 360 | 5.15 |
| SEC/FI/001v | Tanau bwriadol mewn anheddau | 27 | 0.83 | 27 | 0.39 |
| SEC/FA/003ii | Galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig mewn anheddau | 951 | 29.08 | 940 | 28.74 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o anheddau | | | | | |
| SEC/FI/001vi | Tanau mewn eiddo annomestig | 213 | 6.93 | 145 | 0.21 |
| SEC/FA/003i | Galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig | 262 | 8.41 | 273 | 8.76 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o safleodd annomestig | | | | | |
| SEC/SA/004i | Tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi heb larwm mwg | 49 | 12.79 | 61 | 15.76 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

## Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU YN 2020/21

Yn ystod 2012, aeth y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru ati ar y cyd i ddatblygu Siarter Cymru gyfan i sicrhau bod pobl, ni waeth ble maent yn byw yng Nghymru, yn gallu disgwyl cael eu helpu a'u cefnogi i aros yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi ac os bydd tân yn cynnau y byddant yn derbyn ymateb brys yn brydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.


Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:

1. Cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau sy'n digwydd mewn anheddau a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y cawn alwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.
3. Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r cyfarpar cywir i ymdrin â nhw.
4. Ymdrin yn effeithiol, effeithlon a phroffesiynol â thanau mewn anheddau.
5. Cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.
6. Ymchwilio i'r hyn sy'n achosi tanau mewn anheddau a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'n cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2020/21.

Er cysondeb, rydym yn defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd ynglŷn â'r Siarter bob blwyddyn, a dim ond y ffigyrau yn y fframwaith naratif y byddwn yn eu diweddaru.

**1. Byddwn ni'n cymryd yr awenau i ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd ac i leihau eu heffaith ar bobl.**



Rydym wedi ymrwymo i gymryd yr awenau o ran cynnal tueddiad am i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion sy'n gysylltiedig â'r rheini yng Nghymru.

Yn 2020/21, rydym wedi rhoi cyngor ac anogaeth i bobl ynglŷn â sut gallant atal tanau rhag digwydd yn eu cartref a sut gallant eu cadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gwaith ataliol yn cynnwys cynnal 11,334 o Archwiliadau Diogel ac Iach i gartrefi, a rhoddwyd sgwrs am ddiogelwch tân i 2,589 o blant a phobl ifanc yng nghamau allweddol 1 – 4.

Yn ystod 2020/21, aethom at 360 o danau damweiniol mewn anheddau. O ganlyniad i'r tanau hynny, collodd pump o bobl eu bywydau a chafodd 32 arall anafiadau.

Hefyd yn ystod 2020/21, aethom at 27 o danau mewn anheddau a gafodd eu cynnau'n fwriadol, gan arwain at ddim un farwolaeth ond lle cafodd un person ei anafu.

Mae'r tueddiad yn nifer y tanau mewn anheddau yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd nesaf yn dangos gostyngiad cyson yn gyffredinol.



**2. Byddwn ni'n ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y cawn alwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.**
Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd galwadau 999/112 yn cael eu rhoi drwodd i ni gan y gweithredwr.

Mae ein hystafell reoli yn dal ar gael bob awr o'r dydd a'r nos drwy gydol y flwyddyn, ac mae trefniadau arbennig ar gael ar gyfer trosglwyddo galwadau'n llyfn o un ystafell reoli i'r llall os bydd rhywbeth difrifol yn tarfu neu gynnydd yn nifer y galwadau sy'n cyrraedd ar yr un pryd.

Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i wneud y canlynol: a) canfod lleoliad y digwyddiad dan sylw a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael at y digwyddiad.


Yn 2020/21, roeddem wedi delio â chyfanswm o 10,715 o alwadau brys 999/112. Roeddem yn gallu cael digon o wybodaeth am danau mewn cartrefi i hysbysu'r ymateb cychwynnol priodol o fewn 90 eiliad ar 90.3% o'r adegau, a rhwng 91 a 120 eiliad ar 5.7% o adegau.

Fodd bynnag, gwyddom nad y cyflymder wrth ddelio â galwadau – er bod hynny'n bwysig – yw'r unig linyn mesur. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael yr wybodaeth yn effeithiol gan y sawl sy'n galw a allai, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â'r ardal, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu ag anawsterau cyfathrebu neu ieithyddol.

Sgil bwysig arall yw gwybod pryd mae'r sawl sy'n galw yn camddefnyddio'r system 999/112 drwy honni'n ffug fod argyfwng pan nad oes un mewn gwirionedd. Mae'n drosedd i wneud galwadau diangen bwriadol i'r gwasanaethau brys. Yn anffodus, nid ymddengys fod hynny'n atal lleiafrif o bobl rhag cymryd amser ar y llinellau 999 a chadw gwasanaethau draw oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfaoedd peryglus go iawn. Bob tro y byddwn yn troi allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian ac yn golygu bod gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Yn 2020/21, roeddem wedi derbyn 73 o alwadau ffug maleisus. Yn 45% o'r achosion, roeddem wedi gallu canfod nad oedd y galwadau hyn yn ddidwyll felly fe wnaethom ni osgoi anfon adnoddau allan yn ddiangen.

**3. Byddwn ni'n cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.** Pan fyddwn ni wedi ateb yr alwad frys 999/112 ac wedi dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i gyrraedd y digwyddiad yn gyntaf, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym a diogel gyda'r offer cywir i ymdrin â'r digwyddiad.



Yn 2020/21, roeddem wedi ymateb i *% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, *% o fewn 5-10 munud, *% o fewn 10-15 munud a *% mewn mwy na 15 munud. Mae'r adegau hyn yn cynnwys yr amser i'r staff gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio felly gall nifer o bethau effeithio ar gyflymder y ffigyrau ymateb, gan gynnwys daearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau'r ffyrdd yn yr ardal.

* Gan aros ffigyrau gan Lywodraeth Cymru

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn eithriadol o bwysig, ond ni allwn orbwysleisio

mor bwysig yw atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf a chael o leiaf un larwm mwg gweithredol a chynllun dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân yn digwydd. Fodd bynnag, os yw tân wedi digwydd mewn annedd, rydym yn sicrhau bod yr offer cywir gan ein criwiau diffodd tân i ymdrin â hynny.

Rydym yn rhoi cyfarpar amddiffyn personol ac offer diffodd tân o safon uchel i'n diffoddwyr tân. Rydym yn mynnu eu bod yn ffit ac iach yn weithredol, ac rydym yn gwneud yn siŵr fod eu sgiliau'n cael eu rhoi ar brawf a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i wirio bod y ffyrdd y mae ein criwiau wedi delio â digwyddiadau yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau diffodd tân a dderbynnir.

Mae diogelwch ein diffoddwyr tân yn bwysig iawn i ni oherwydd natur y gwaith a wneir ganddynt. Yn 2020/21, aeth ein criwiau at 1,770 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o safleoedd ac mewn lleoliadau yn yr awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hyn, cafodd deg aelod o'r staff gweithredol anaf. Mân anafiadau gafodd rhai ohonynt, ond cafodd rhai eraill anaf digon difrifol i orfod cymryd amser o'r gwaith i wella. Mae'n anghyffredin i ddiffoddwyr tân gael anafiadau difrifol; o blith y cyfanswm uchod, roedd dau anaf wedi'u categoreiddio'n rhai 'penodedig' o dan Reoliadau RIDDOR (Adroddiadau ynghylch Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus).

**4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, effeithlon a phroffesiynol.**




Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â thanau'n effeithiol, effeithlon a phroffesiynol. I wneud hyn, rydym yn rhoi'r sgiliau, gwybodaeth, offer diffodd tân a'r gefnogaeth reolaethol i'n criwiau tân sydd wedi cael lefel uchel o hyfforddiant. Felly, ni waeth beth yw amgylchiadau'r tân mewn annedd, byddant wedi cael eu paratoi'n gywir i ymdrin â hynny.

Yn 2020/21, o'r holl danau mewn anheddau yr aethom atynt, llwyddwyd i gadw 88.4% ohonynt i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at yr ystadegyn hwn fod y tu hwnt i reolaeth y criw, megis pa mor hir gymerodd hi i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi cau ai peidio er mwyn helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell o orsaf dân yr oedd yr annedd, rydym yn dal yn ystyried bod hwn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant yn diffodd tanau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwelliannau ym maes ymchwil ac offer, ac rydym yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech yn dilyn y datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd delwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub o ddifri. Rydym yn rhoi pwys mawr ar nodweddion personol a phriodweddau ein holl staff gweithredol, yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a ffisiolegol a'r safon uchel i'w hyfforddiant gweithredol a rheolaethol.

Rydym yn annog ein holl staff i gadw at set o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan y gwasanaeth tân ac achub yn y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n fynegiant o'n hymrwymiad i roi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned, i bobl, i amrywiaeth ac i wella.



**5. Byddwn ni'n cyfrannu at gael pethau yn ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.**

Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

Gall tân yn y cartref adael pobl yn teimlo'n eithriadol o fregus. Pan fo pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen iddynt gael cymorth ymarferol yn ogystal ag emosiynol. Pan fo pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu a'i ffrindiau agosaf. Felly, ni fydd gwaith y gwasanaeth tân ac achub yn cefnogi cymunedau yn dod i ben fo'r tân wedi cael ei ddiffodd a bod cyfrif wedi'i rhoi am bawb.

Ymhob achos, ymchwilir i'r hyn a achosodd y tân a chofnodir hynny'n fanwl. Cofnodir pob manylyn o sut a ble cychwynnodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân, a hynny ar gyfer dysgu, ymchwilio, a monitro yn y dyfodol.

Os oes rheswm i gredu i'r tân gael ei gynnau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr heddlu a'r asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ynglŷn â hyn.

Ar rai safleoedd, megis blociau o fflatiau neu dai lle mae nifer o wahanol denantiaid yn byw, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna, gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi cynnau'n ddamweiniol, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal rhyw fath o weithgarwch neu ymgyrch diogelwch tân yn y cyffiniau, i gynnig cyngor a sicrwydd drwy Archwiliadau Diogel ac Iach.

**6. Byddwn ni'n ymchwilio i'r hyn sy'n achosi tanau mewn anheddau ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.**



Byddwn ni'n ymchwilio i'r hyn sy'n achosi tanau mewn anheddau. Mewn llawer o achosion, bydd y tarddiad a'r hyn a achosodd y tân yn glir a syml iawn, ond bydd angen ymchwiliad fforensig manylach ar gyfer rhai eraill er mwyn canfod beth sy'n fwyaf tebygol o fod wedi achosi'r tân. Yn 2020/21, dim ond 13 o danau mewn anheddau oedd ag achos anhysbys.

Os amheuir trosedd, caiff yr ymchwiliad i'r tân ei gynnal gyda'r heddlu. Mae pobl a amheuir o roi annedd ar dân yn fwriadol yn debygol o wynebu achos troseddol, ond mewn rhai achosion efallai nad dyma fydd yr unig lwybr sydd ar gael, er enghraifft os cafodd y tân ei gynnau gan blentyn ifanc neu gan rywun yn ceisio cyflawni hunanladdiad.

Yn 2020/21, aethom at 387 o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 27 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

Mewn rhai safleoedd preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r rhannau cymunol a chyffredin yn dod dan reolaethau sy'n mynnu bod pwy bynnag sy'n gyfrifol am y safle (megis y landlord neu reolwr y safle) yn sefydlu trefniadau da ar gyfer diogelwch tân. Gall methu â gwneud hynny arwain at gau'r safle ac erlyn y sawl sy'n gyfrifol, gyda'r siawns o garchar a/neu ddirwy heb gyfyngiad.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni'r rhwymedigaethau sydd arnynt o dan y ddeddfwriaeth hon, a gallant ddethol o blith amryw o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a'r risg a achosir gan y methiant.

Yn 2020/21, cyflwynwyd un hysbysiad gorfodi, ond ni roddwyd unrhyw hysbysiadau gwahardd ffurfiol. Ni chwblhawyd unrhyw erlyniadau yn ystod y flwyddyn.



**7. Byddwn ni'n ymdrechu i gynnal safonau uchel ac i wella agweddau ar yr hyn a wnawn.** Rydym yn ymdrechu'n gyson i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Dan y ddeddfwriaeth, mae awdurdodau tân ac achub yn cael eu categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt fynd ati'n rheolaidd i adolygu ac i wella eu perfformiad yn barhaus drwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd mewn perthynas ag amcanion gwella blynyddol.

Nid ydym yn cyfyngu ar ein gweithgareddau gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon; mae safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'r modd rydym yn rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub o ddydd i ddydd.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau gwella sy'n cael eu cynnal:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i ymgynghoriadau, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth
- Dysgu o'n profiadau, megis o ôl-drafodaethau ar ôl digwyddiadau, adroddiadau am ddamweiniau neu ddamweiniau a oedd bron â digwydd
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arferion da, a dysgu o'r ymchwil a gynhaliwyd
- Manteisio ar gyfleoedd i ddysgu gan, a gyda, sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl er mwyn cynnal ein gweithrediadau, megis drwy brosesau rheoli parhad busnes
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau Cymru Gydnerth
- Mynd ati'n barhaus i ddatblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau ffisegol a chyfrifiadurol megis ein cyfarpar, cerbydau, adeiladau a thechnoleg

## BETH MAE POBL ERAILL WEDI'I DDWEUD AMDANOM

**Archwilio Cymru – Adolygiad o Gyfranogiad 2019/20**

Roedd adroddiad 2019/20 gan Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar y modd y mae'r Awdurdod yn ymwneud ac yn rheoli'r gwaith o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaeth neu bolisi, ac wrth ddylunio gweithgareddau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod gan yr Awdurdod bocedi o waith ymgysylltu da ond mae eto i symud tuag at ddull strategol integredig o ddelio â chyfranogiad.

**Archwilio Cymru – Cadernid Corfforaethol 2020/21**

Roedd yr adroddiad mwyaf diweddar gan Archwilio Cymru yn adolygu dull yr Awdurdod o ddelio â chadernid corfforaethol er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n mynd i'r afael â'r heriau ariannol a'r heriau o ran capasiti sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Canfu'r adroddiad fod yr Awdurdod wedi dangos ei gadernid byrdymor ond mae angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr er mwyn parhau'n gadarn yn y dyfodol:

- Cyllid: Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol er mwyn parhau'n gynaliadwy yn ariannol;
- Llywodraethu: Mae gan yr Awdurdod fframwaith da ar gyfer llywodraethu, ond mae angen i'r Aelodau chwarae rhan fwy canolog yn delio â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Gweithlu: Mae gan yr Awdurdod weithlu cadarn ac mae wedi delio'n dda â'r heriau uniongyrchol, ond mae angen rheoli rhai risgiau tymor canolig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy;
- Asedau: Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg ond mae angen mynd i'r afael â rhai heriau hirsefydlog er mwyn helpu i gefnogi cadernid yn y dyfodol;
- Parhad busnes: Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer parhad busnes wedi helpu i gynnal cadernid corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig.

## GWYBODAETH ARALL

Mae **Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** yn egluro dyletswyddau a grymoedd yr Awdurdod i wneud y canlynol:

- hybu diogelwch tân;
- diffodd tanau;
- amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau;
- achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd;
- ymateb i risgiau penodedig eraill, megis digwyddiadau cemegol;
- ymateb i argyfyngau mawr, megis ymosodiadau terfysgol.

Mae **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a Gorchymyn (Diwygio) 2017** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n cynnwys halogyddion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; strwythurau'n cwympo, trenau, tramiau neu awyrennau; a llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol pan fyddant yn golygu perygl marwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer, ac ymateb i, argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod orfodi diogelwch tân mewn safleoedd annomestig, gan gynnwys y rhannau cyffredin mewn blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

O dan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** rhaid i'r Awdurdod osod amcanion i fynd ati'n barhaus i wella'r hyn mae'n ei wneud a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliannau a'i berfformiad.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol, a hynny'n unigol ac fel aelod statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod i roi sylw dyledus i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio, i hybu cyfle cyfartal ac i feithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Roedd **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg yng Nghymru statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, rhaid iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau cenedlaethol.

Cyflwynwyd **Deddf Diogelu Data y DU 2018** i foderneiddio deddfau diogelu data ac i ddiwallu anghenion economi a chymdeithas sy'n mynd yn fwyfwy digidol. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu data, mae'n gweithredu safonau GDPR ar draws yr holl waith prosesu data cyffredinol ac mae'n sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau i gael deddfwriaeth briodol ar gyfer diogelu data ar ôl iddi adael yr Undeb Ewropeaidd.

**Llywodraeth Cymru – Pobl a Chymunedau**
http://llyw.cymru/plant-theuluoedd

**Archwilio Cymru**
Mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n gorfod asesu'r tebygolrwydd y bydd yr Awdurdod yn parhau i wella ac a yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddwyd. Hefyd, bydd archwilwyr yn gweithio gyda'r awdurdodau tân ac achub ledled Cymru i gyflawni rhaglen o archwiliadau ariannol ac archwiliadau gwerth am arian.

**Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**
Caiff deunydd hawlfraint y Goron ei atgynhyrchu yn y ddogfen hon o dan Drwydded Rhif C2010002320.

**Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon**
Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru: [Digwyddiadau Tân (llyw.cymru)]
Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Lloegr:
[Tablau data ystadegau tân - GOV.UK (www.gov.uk)]
Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol 2017:
https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-report-2017-en.pdf

**YMYRRYD OS OES METHIANT, NEU'R POSIBILRWYDD O FETHIANT, I GYDYMFFURFIO:**
Mae gan Lywodraeth Cymru rymoedd i ymyrryd:

- o dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004,** os yw o'r farn fod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 - Protocol Ymyrryd yn gymwys;
- o dan adran 29 o **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**, os yw o'r farn fod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, ne'n debygol o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ymhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd hyd oni fyddant wedi cynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur.

## YMGYNGHORIADAU:

Bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn ceisio barn a safbwyntiau'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses o ddatblygu ei gynlluniau strategol a'i amcanion.

Dyma'r ymgynghoriadau diweddar:

| Teitl | Ymgynghoriad | Cyhoeddi | Blwyddyn |
|---|---|---|---|
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21 ac ymlaen (Strategaeth Amgylcheddol newydd) | Hydref/Gaeaf 2019 | Mawrth 2020 | 2020/21 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019/20 ac ymlaen | Haf/Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019/20 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018/19 ac ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018/19 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017/18 ac ymlaen | Hydref 2016 | Mawrth 2017 | 2017/18 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17 | Hydref 2015 | Mawrth 2016 | 2016/17 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2015/16 | Hydref 2014 | Mawrth 2015 | 2015/16 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2014/15, a oedd yn cynnwys strategaeth ariannol newydd | Hydref 2013 | Mawrth 2014 | 2014/15 |

## GEIRFA / DIFFINIADAU

- **Tanau**
  Mae pob tân yn cael ei roi mewn un o dri chategori, sef prif dân, tân eilaidd neu dân simnai.

- **Prif Danau**
  Tanau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, peiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau eraill y tu allan megis pontydd, blychau postio, twneli ac ati.

  Mae tanau yn unrhyw le yn cael eu categoreiddio'n brif danau os ydynt yn cynnwys anafusion, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau yn unrhyw le yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.

- **Tanau Eilaidd**
  Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai'n digwydd ar dir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigaeth fel prif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig.

  Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafusion, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.

- **Tanau Simnai**
  Tanau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi'i gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.

  Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafusion, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.

- **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (digwyddiadau brys eraill)**
  Digwyddiadau lle nad oes tân a lle mae angen peiriant neu swyddog i ddod, ac maent yn cynnwys:
  - argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ac ati;
  - trychinebau mawr;
  - digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;
  - trefniadau ymlaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

- **Marwolaethau Tân (yn gysylltiedig â thân)**
  Pan fo person y mae ei farwolaeth wedi'i phriodoli i dân hyd yn oed os digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Hefyd, mae ambell achos pan ddaw i'w amlwg wedyn nad tân achosodd y farwolaeth. Felly, mae'r ffigyrau hyn yn agored i'w diwygio.

- **Anafiadau Tân**
  Er cysondeb, ar ôl Ebrill 2009 drwy'r Deyrnas Unedig, caiff anafusion tân eu cofnodi o dan bedwar categori difrifoldeb:

  i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
  ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
  iii) rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ac nid oedd angen rhagor o driniaeth;
  iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – aeth y person i'r ysbyty neu cafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ond nid oedd unrhyw anaf neu drallod amlwg.

- **Galwadau Diangen (canllaw cyffredinol)**
  Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad gan gredu bod digwyddiad yno, ond o gyrraedd mae'n gweld nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.

  Sylwch: os bydd y peiriant yn cael ei 'droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi mynd yno, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch.

- **Galwadau Diangen – Maleisus**
  Galwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus.

- **Galwadau Diangen – Didwyll**
  Galwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.

- **Galwadau Diangen – Larymau Tân Awtomatig**
  Galwadau a ddaw gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu drwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, heb 'benderfyniad', er enghraifft gan alwadau galwadau diogelwch neu rywun wedi'i enwebu o fewn sefydliad).

## FERSIYNAU ERAILL, A SUT I GYSYLLTU Â NI

**Mae fersiynau eraill ar gael o'r ddogfen hon:**

- ar bapur ac yn electronig;
- yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- fel taflen gryno fer o'r prif bwyntiau;
- mewn fformatau hygyrch drwy ein gwefan.

**Manylion Cyswllt:**

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

01745 535 250

www.gwastan-gogcymru.org.uk

**Gallwch chi ein dilyn ni hefyd ar:**

@northwalesfire

www.facebook.com/northwalesfireservice

**GWAHODDIAD I GYFRANNU AT WELLA EIN GWASANAETHAU**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ei weithrediadau a'r modd mae'n darparu gwasanaethau. Drwy fynd ati'n rheolaidd i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ystyrlon, ein gobaith yw ennyn mwy a mwy o gysylltiad â'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Felly, os oes gennych chi sylwadau am yr asesiad hwn, neu am ffyrdd posibl o wella ein hasesiadau perfformiad blynyddol yn y dyfodol, byddem yn falch o glywed gennych.